# YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

CHWEFROR, 1870.

---

## CYFRESWM HUME YN ERBYN GWYRTHIAU.

MEDDYLIODD yr athronydd hwn y buasai yn dymchwelyd—yn lladd y grefydd Gristionogol ar unwaith â'r rheswm byr canlynol:—"Mae yn groes i brofiad fod gwyrth yn wir, ond nid yw yn groes i brofiad fod tystiolaeth yn gelwyddog." Rhaid addef fod gormod o wir yn yr ail osodiad uchod, sef "fod tystiolaeth yn gelwyddog." Mae yn aml felly, fel mae gwaethaf y modd; ond yn mha lyfr y darllenodd, neu gan ba ddysgawdwr y clywodd, mai gwirionedd yw fod gwyrth yn groes i brofiad? O leiaf, nid yw yn debyg iddo ddysgu hyn gan yr hauwr na'r medelwr, na chan greadur mud, nac un bôd rhesymol a deallus yn dal cysylltiad â hwsmonaeth. Yn groes i brofiad, yn wir! Ai croes i brofiad yw dangosiadau yn y byd allanol na all meddwl dyn, nad yw y cryfaf a'r ëangaf ond eiddil, eu dirnad! Byddai yn llawer agosach at y gwir, debygem, i ddyweyd fod dangosiadau o fewn profiad hyd yn nod yr hwsmon na ellir briodoli i ddim yn amgen na nerth gwastadol y gallu Dwyfol a grëodd bob peth.

Dacw'r hedyn yn syrthio i'r ddaear. Pwy sydd yn rhoddi iddo gynydd? oblegid yn mhen ychydig fe'i gwelir yn blaguro, ei ddail yn tòri allan, yn cynyddu, yn lledaenu, ei gorsen yn ymestyn i fynu, a'r blodau yn ymagor, a'r rhai hyny yn y fath harddwch a gogoniant nas gall celfyddyd byth eu hefelychu. Beth weithia yn y llysieuyn i achosi y cyfnewidiadau a'r cynydd yma o'r hedyn i'r blodeuyn? Beth yw'r yni sydd yn gweithio ynddo? "Cyfraith natur," meddai rhywun anystyriol. Rhywbeth rhyfedd yn ngolwg rhai yw "cyfraith natur." Ai bôd deallus a gweithgar yw "cyfraith natur"? Gellid meddwl felly, wrth glywed rhai yn siarad. Ond beth yw "cyfraith natur"? Onid y dull ydyw, neu'r modd trwy yr hwn y mae'r Pen Saer yn cadw ei waith mewn trefn? Pwy roddodd fywyd yn yr hedyn? O ba le daeth y bywyd? Beth ydyw, a phwy sydd yn ei gynal? Nis gall natur wneyd dim o'r fath, oblegid effaith ydyw natur ei hun—gwaith y Crëwr. Beth sydd yn achosi i'r hedyn flaguro pan yn y ddaear? Nid yw gwres yr haul a lleithder y gwlaw ond ansoddau. Nis gall flaguro o'i allu ei hun, mwy nag y gallasai y darllenydd roddi bodolaeth iddo ei hun. Mewn gair, olrheiniwch achosion ac effeithiau mor fanyled ac mor belled ag y mynoch, yr ydych yn rhwym o ddyfod yn y diwedd at nerth neu yni

y Crëawdwr yn gweithredu yn ddianwadal yn mhob gronyn, yn mhob cymal, ac yn mhob perchen bywyd yn y greadigaeth. "Mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn," medd yr Iesu. Gwyrth wastadol yw bodolaeth y bydysawd. Ac eto, meddai Hume, mae yn groes i brofiad fod gwyrth yn cymeryd lle, er ei bod mewn gwirionedd yn cymeryd lle pan ysgrifenodd y frawddeg, oblegid yn y Crëawdwr "yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod." Nid oes dim bywyd ond trwy yni ei fywyd ef. A ydyw yn groes i brofiad ein bod ni yn byw, yn meddwl, yn teimlo? Ai peth croes i brofiad yw fod y greadigaeth lysieuawl yn tyfu? Onid oes profiad genym ei bod yn y gauaf megys yn syrthio i gwsg, ond yn y gwanwyn, pan fyddo yr haul yn ëangu ei gylch yn y ffurfafen, ac yn dynesu yn uwch wrth ben, yn ail fywiocâu, ac yn mhen ychydig yn ymwisgo yn ei harddwch arferol. Nid yw pob effaith yn y greadigaeth ond gwyrth wastadol. Oherwydd fod yni y Crëawdwr yn rheolaidd, ai doeth ac athronawl yw meddwl na feiddia ŵyro oddiwrth ei drefn, pan yn ei ddoethineb y gwelo yn dda? Gellid meddwl, wrth glywed rhai dynion yn siarad am anmhosiblrwydd gwyrth, mai bôd yw'r Crëawdwr, fel yr hen dduw dychymygol Jupiter gynt, sydd yn cael ei ddal dan gaethiwed gan ei gyfreithiau ei hun. *Gwyrth oedd y greadigaeth ei hun;* er hyny, "peth croes i brofiad yw gwyrth," meddai Hume, a llawer Hume arall gydag ef! Beth ddywedwn am danynt? Dywedwn, yn ol ein barn ni, eu bod yn cyfeiliorni.

---

## ESPONIADAU.

Esaiah iii. 17. *A'r Arglwydd a ddinoetha eu gwarthle hwynt.*] Yr oedd yn arfer farbaraidd gan goncwerwyr yn yr amseroedd hyn i ddiosg eu caethion rhyfel, ac i beri iddynt deithio yn noeth ugeiniau a channoedd o filldiroedd dan y fflangell trwy erwindeb y tywydd, ac yn waeth na dim tan wres annyoddefol yr haul! Arfer greulawn ydoedd hon. Yr oedd yn sarhad i'r rhyw wrywaidd, pa faint mwy i fenywod tyner a moethus, y fath a ddarlunia y prophwyd yma! Yr oeddynt wedi arfer byw o'u mebyd mewn mwyniant o bob cysuron. Nid oedd hyd yn nod eu gwynebau erioed wedi eu dynoethi i olwg dyn, oblegid yn y dwyrain nid â un fenyw allan heb orchudd. Caled iawn, gan hyny, oedd i'r cyfryw gael eu diosg o bob edefyn, a'u gyru yn noeth drwy bob tywydd fel anifeiliaid, yn gaethion i wlad bell! Dywed y prophwyd fod yr amser yn dynesu, pryd y byddai i ferched Jerusalem gael eu darostwng oherwydd eu balchder i'r fath driniaeth erwin a gwaradwyddus.

Ioan v. 35. *Efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo.*] Mae y nodweddiad a roddir yma o Ioan Fedyddiwr yn hollol gydweddol â'r arfer oedd gan yr Iuddewon o siarad. Galwent ddyn nodedig am ei wybodaeth yn *ganwyll.* Dywed awduron Iuddewig am Shuah, tad-yn-nghyfraith Judah, ei fod yn ganwyll a goleuni i'r bobl lle yr oedd yn byw, am ei fod yn un o'r dynion callaf yn y ddinas. Canwyll hefyd yw pob Rabbi neu Ddoctor y Gyfraith. Bryd arall galwant Rabbi yn lamp. Yn ol yr un dull o siarad, dywedir am Ioan ei "fod yn ganwyll yn llosgi ac yn goleuo," am ei fod yn hyfforddi ac yn dysgu ei gydwladwyr, ac yn meddu ar fwy o ddoethineb a gwybodaeth grefyddol na'r cyffredin.

1 Petr v. 4. *A phan ymddangoso y Pen-bugail, chwi a gewch dderbyn*

*anniflanedig goron y gogoniant.*] Yn yr hen amseroedd, pan oedd y prif gyfoeth yn gynnwysedig mewn deadellau o ddefaid ac ychain, yr oedd yn ofynol cael llawer o fugeiliaid i ofalu am danynt; ac i gadw trefn, gosodid hwynt dan lywyddiaeth a gofal un, yr hwn a elwid yn y Groeg *Archipoimen*, neu yr Arch-fugail. Yr oedd yn swydd anrhydeddus. Cyflawnid hi weithiau gan bersonau urddasol, hyd yn nod meibion brenhinoedd. Darllenwn yn 1 Sam. xxi. 7, am Döeg, ei fod "y penaf o'r bugeiliaid oedd gan Saul." Crybwyllir ei enw fel gwr nodedig "yn sefyll gerbron yr Arglwydd" pan y rhoddodd Abimelech yr offeiriad i Ddafydd y bara gosod. Gellir gweled yn y *Gentleman's Magazine* am fis Mai, 1764, sylwadau tra phwrpasol ar y pen hwn yn nghylch porfeydd defaid yn yr Yspaen. Digon tebyg fod yn y wlad hòno yn aros hyd y dydd heddyw rai o arferion y dwyrain, a ddygwyd yno gan y Mahometaniaid Mwraidd. Dywed awdwr yr erthygl fod yn yr Yspaen, ar bob deadell, brif fugail, ac fod pob deadell yn cynnwys deng mil o ddefaid, yr hon a renir yn ddeg dosparth. Maent oll dan ofal un dyn, ond rhaid i hwnw fod ei hunan yn berchen o bedwar i bum cant o ddefaid, yn ddyn o gorff cryf, gweithgar, gofalus, yn deall natur porfeydd, ac yn gwybod y ffordd i wella y clefydau hyny i ba rai y mae defaid yn agored. Mae ganddo hanner cant o fugeiliaid odditano, a'r un nifer o gŵn, pum dyn a phum ci i bob dosparth o'r ddeadell. Mae pob awdurdod yn ei law. Os na fydd bugail yn gwneyd ei waith yn iawn, mae gan y prif-fugail awdurdod i'w ddanfon ymaith yn y fan. Efe sydd yn talu y bugeiliaid am eu gwaith, ac yn gwobrwyo y rhai mwyaf ffyddlon a gofalus. Mae y cŵn, y defaid, y porfeydd, y dynion—y cyfan yn ei ofal, ac nid yw yn gyfrifol i neb ond i'w arglwydd, sef perchen y ddeadell. Mae yr Apostol Petr, yn yr adnod uchod, yn cymharu Iesu Grist i'r swyddwr hwn; efe yw Pen-bugail yr eglwys; efe sydd âg awdurdod i wobrwyo y bugeiliaid gofalus a ffyddlon.

Ioan x. 1. *Yn wir, yn wir, yr hwn nid yw yn myned i mewn trwy y drws i gorlan y defaid, eithr sydd yn dringo y ffordd arall, lleidr ac yspeiliwr yw.*] Mewn gwledydd lle mae lladron a chreaduriaid rheibus mae corlanau yn anhebgorol angenrheidiol i ddiogelu y praidd yn y nos. Mewn rhai lleoedd adeiledir corlanau ar ddull nid annhebyg i ffeldydd yn ein gwlad ni; ond fynychaf gwneir hwynt o glwydi a chorsenau, nid yn unig er mwyn amddiffynfa, ond hefyd i weini cysgod i gadw'r ŵyn a'r mamogiaid yn gynhes. Mae yn y gorlan, wrth gwrs, ddrws, a hwnw yn un helaeth, trwy yr hwn yr â y bugeiliaid a'r defaid i mewn ac allan. Yn y nos mae'r drws yn cael ei sicrhau, fel na allo neb fyned trwyddo. Mae y gwelydd hefyd o ddeuddeg i bymtheg troedfedd o uchder, onitê neidiai bleiddiaid, a chreaduriaid cyffelyb, drostynt. Anhawdd yw i leidr gael cyfleusdra i ddwyn llwdn, oblegid mae'r bugeiliaid yn gwylied yn y nos fel y dydd; ond pan y caffo, rhaid iddo ddringo dros y wàl neu y clwydi.

Ioan x. 3. *Ac y mae efe yn galw ei ddefaid erbyn eu henw.*] Mae yma gyfeiriad at arferion Judea, lle mae gan y bugeiliaid enwau ar y defaid, y rhai ydynt yn adnabod eu henwau, fel cŵn a cheffylau yn ein gwlad ni, ac yn canlyn y bugeiliaid i'r porfeydd, neu i ba le bynag y byddont yn eu harwain. Canlyn y bugail fynychaf wna'r defaid yn y dwyrain. Nid ydynt, fel yn ein gwlad ni, yn cael eu danfon o'i flaen.

Mat. x. 17. *Eithr ymogelwch rhag dynion; canys hwy a'ch rhoddant*

*chwi i fynu i'r cynghor, ac a'ch ffrewyllant chwi yn eu synagogau.*] Cospedigaeth dra chyffredin gan yr Iuddewon oedd ffrewyllu neu fflangellu. Yr oedd dwy ffordd o'i gweinyddu. Un oedd â fflangell o gareion neu gordeni, a'r llall â gwialen neu ffon. Dywed y Rabbiniaid fod troseddau bychain yn erbyn y gyfraith i gael eu cospi â fflangell. Cyfrifant fod cant a thriugain ac wyth o droseddau yn agored i'r gosp hon, a daliant fod pob trosedd cospadwy, nad yw yn teilyngu marwolaeth yn ol y gyfraith, i'w geryddu â'r fflangell. Diosgid y troseddwr o'i ysgwyddau hyd ei ganol, a chylymid ei freichiau yn dŷn wrth bost neu biler isel, fel ag i grymu trosodd i'r dyben i alluogi y gweinyddwr i gyrhaeddyd ei gefn yn rhwydd. Dal rhai nad oedd byth ragor o wialenodau yn cael eu gweinyddu na deugain namyn un, ond eu bod yn cael eu gosod yn drymach neu yn ysgafnach ar y cefn yn ol natur y trosedd. Meddylia ereill, pan fyddai y trosedd a'r amgylchiad yn gofyn, y gellid amlhau nifer y gwialenodau.

Wedi diosg y troseddwr, dywedir fod y gweinyddwr yn esgyn i ben careg neu fainc i gael mwy o bwer arno i'w guro ar y cefn a'r frest â fflangell o gareion croen ŷch. Elid trwy y gorchwyl fynychaf yn y llŷs yn mhresenoldeb y barnwyr. Weithiau yn y synagog neu'r tŷ addoliad, pan fyddai y trosedd yn dal perthynas â chrefydd. Trosedd mawr oedd dysgu athrawiaethau a fyddent yn groes i'r gyfraith, a chospid y troseddwr yn y synagog o flaen y gynulleidfa. Am droseddau gwladol, y rheol gyffredin oedd fod i'r troseddwr gael ei fflangellu o flaen y cynghor o dri, os byddai y trosedd yn erbyn gorchymyn *nacâol;* ond am droseddu gorchymyn *cadarnhaol*, gweinyddid y gosp o flaen y cynghor o dri-ar-hugain. Tra fyddai y gorchwyl o fflangellu yn myned yn mlaen, gwaeddai y prif farnwr allan â llais uchel, "Oni chedwi ar wneuthur holl eiriau y gyfraith hon," &c., (Deut. xxviii. 58,) gan ychwanegu, "Cedwch, gan hyny, eiriau y cyfammod hwn, a gwnewch hwynt," (Deut. xxix. 9,) gan orphen, o'r diwedd, yn ngeiriau y Salmydd, "Er hyny, efe yn drugarog a faddeuodd eu hanwiredd, (lxxviii. 38.) Byddai yn rhaid i'r barnwr ail adrodd y brawddegau hyn os elai trwy ei wers cyn y byddai y gwialenodwr wedi gorphen ei waith. Dyma'r driniaeth oedd dysgyblion Crist i ddysgwyl yn y synagogau. Cafodd yr Apostol Paul ei fflangellu unwaith, os nid rhagor.

---

## GORSEDD DUW.

Y MAE yr Ysgrythyr yn wastadol yn cyfeirio at le, amgylchiad, neu amlygiad neillduol, a elwir *gorsedd Duw;* megys yn yr ymadroddion canlynol:—"Y nef yw fy ngorseddfainc, a'r ddaear yw lleithig fy nhraed." "Yr Arglwydd a barotôdd ei *orseddfa yn y nefoedd.*" "*Gorsedd uchel ogoneddus*, o'r dechreuad, yw lle dy gysegr." "Am hyny maent gerbron gorseddfainc Duw, ac yn ei wasanaethu ddydd a nos, yn ei deml." "Bendith, ac anrhydedd, a gogoniant, a gallu, a fyddo i'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc." Y mae yr ymadroddion a'r darluniadau hyn, a'r cyffelyb, naill ai yn hollol ffugyrol, neu ynte yn cyfeirio at ryw ardal neillduol yn y bydysawd, lle y mae y gogoniant Dwyfol yn adlewyrchu mewn rhyw fodd dysglaer neillduol oddiwrth wrthddrychau defnyddiol, ag y mae amlygiadau o'r cymeriad Dwyfol

yn cael eu harddangos egluraf. Os oedd cyfeiriad at ddysgleirdeb a mawredd rhyw barth neillduol, y mae yn rhoddi drychfeddwl seryddol i ni a all ein cynorthwyo i ffurfio rhyw ddirnadaeth am "yr orsedd ogoneddus uchel" sydd yn breswylfod neillduol y Bôd tragywyddol. Bernir yn awr gan seryddwyr ei fod yn dra thebygol, os nad yn sicr, oddiar sylwadau a wnaed yn ddiweddar, oddiwrth natur, pwys, a thyniad, ac amgylchiadau ereill, fod holl gysawdau y bydysawd yn troi o amgylch un canolbwynt cyffredinol, a bod y canolbwynt hwu yn dal perthynas, o ran maintiolaeth, â'r cynulliad cyffredinol o gysawdau, ac mor agos ag y mae yr haul yn ei ddal â'r planedau sydd yn ei gylchynu. Ac fel y mae ein haul ni yn fwy o bum cant o weithiau na'r ddaear, a'r holl berthynasau ereill, a'u lleuadau yn nghyd,—ar yr un egwyddor, byddai y fath gorff conolbarthol yn fwy o bum cant o weithiau na'r holl gysawdau a'r bydoedd sydd yn y greadigaeth i gyd. Gan hyny, gall fod yn fydysawd mawr ynddo ei hun, ac yn rhagori ar y lleill oll o ran maintioli, dysgleirdeb, a gogoniant, ac yn fyd cyflawn ynddo ei hun. Os ydyw hyn yn bod mewn gwirionedd, gellid ei alw, gyda'r priodoldeb mwyaf, yn orsedd Duw.

Dyma y drychfeddwl aruchelaf a all meddwl dyn byth gael ei gynnwys. Yr ydym yn teimlo ein syniadau braidd yn cael eu llethu wrth geisio rhoddi darluniad o hono. Ond pa gymaint bynag a allo orlenwi ar ein meddwl, eto ni ddylem roddi i fynu y fath ystyriaeth am ogoniant ac ëangder gweithredoedd Duw, oblegid nid oes dim llai a all ymddangos yn deilwng o Fôd sydd â'i briodoliaethau yn anfeidrol. Gellid ystyried y canolbwynt dirfawr hwn fel prif-ddinas y bydysawd. Dichon fod cenadaethau yn cael eu danfon yn achlysurol o'r canolbwynt ardderchog hwn i'r bydoedd cylchynol, yn mhob cymydogaeth o'r ëangder. Yma hefyd y gall fod anfonedigion o bob byd yn cyrchu yn achlysurol, a thrigolion gwahanol fydoedd yn cymdeithasu â'u gilydd, ac yn dysgu y prif wersi ar y gweithredoedd naturiol a'r goruchwyliaethau moesol hyny a gymerant le yn y gwahanol gylchoedd. Yma y gall fod gwrthddrychau o orwychder a gogoniant yn cael eu harddangos i luaws dirifedi ag na chanfyddir mo honynt yn un ran arall o'r greadigaeth. Yma gall fod creaduriaid rhesymol o'r radd uwchaf, sydd wedi cyrhaedd uwch gwyboder gwybodaeth a rhinwedd, yn ffurfio prif ran poblogaeth y lle gogoneddus. Yma gall fod corff gogoneddedig y Gwaredwr wedi cymeryd ei brif sefyllfa, fel pen i'r "holl dywysogaethau a'r awdurdodau;" ac yma hefyd y mae yn debygol fod Enoch ac Elias yn preswylio, er dysgu, yn y cyfamser, hanesiaeth cynlluniau a gweithredoedd mawreddog y Duwdod, fel y byddont yn alluog i gyflwyno gwybodaeth i'w brodyr o hîl Adda, pan y cyfarfyddant hwy eto yn y byd a drefnwyd i fod yn gartref iddynt ar ol yr adgyfodiad cyffredinol. Yma y mae yn bosibl fod GORFAWREDD y Duwdod, gogoniant ei berffeithderau naturiol a moesol, ac anfeidroldeb ei ymerodraeth, yn taro y meddwl â llewyrch dysglaer, ac yn cyffroi teimladau o foddhad a hyfrydwch uwchlaw pobpeth a amlygir yn mhob talaeth arall o'r greadigaeth. Mewn gair, gall y bydysawd canolbarthol ëang ac ysblenydd hwn ffurfio y trigfan ardderchog y cyfeirir ato yn yr Ysgrythyrau dan yr enw Y DRYDEDD NEF, GORSEDD Y DUW TRAGYWYDDOL, NEF Y NEFOEDD, Y GORUCHELDER A'R CYSEGR, A'R GOLEUNI GOGONEDDUS NA ELLIR DYFOD ATO.

THOMAS DICK, LL.D.

## DYLEDSWYDD RHIENI I RODDI ADDYSG I'W PLANT.

Nid ydym yn bwriadu dosranu addysg yn athronyddol, gan nodi allan pa ganghenau sydd fwyaf llesiol ac adeiladol; ond cymerwn addysg yn gyffredinol, fel ei gwelir yn ei effeithiau yn y dysgedig yn fwy na'r annysgedig, yn y coethedig yn fwy na'r anghoethedig, yn y llwyddiannus yn fwy na'r aflwyddiannus. Gallwn sylwi, gyda llaw, fod addysg yn ffynnonellu mewn natur, dyn, neu bethau: trwy natur y mae ein cyneddfau a'n peiriannau yn ymddadblygu, trwy ddyn y mae y cymhwysiad ydym yn wneyd o'r ymddadblygiad uchod, a thrwy bethau y mae y profiad ydym yn gael o'r gwahanol wrthddrychau yn ein cysylltiad â hwynt; ac mai â'r addysg a dderbyn y plentyn oddiwrth ddyn y mae a fynem wrth drin y testun.

Mae bywyd dyn yn cael ei wneuthur i fynu o ranau neu gyfnodau ag sydd yn dilyn y naill y llall, ac y mae pob cyfnod yn dylanwadu yn fawr ar ei olynydd. Y mae y peth a fydd dyn yn ei fabandod yn ymddibynu ar ei rieni; fel y mae ei fabandod, felly bydd ei ieuenctid; fel y bydd ei ieuenctid, felly bydd ei ddyndod; ac felly trwy bob cyfnod o'i oes. Os caiff mabandod ei ddefnyddio i ëangiad y galluoedd dealldwriaethol, ac iawn ddefnyddio y cyfryw, bydd dyndod yn deilwng, addfedrwydd yn barchus, gwywder yn anrhydeddus, a hen ddyddiau yn hybarch. Mae ein testun yn ein cyfyngu i'r cyfnod pwysig hwnw y mae dyn ynddo pan y mae gofal ei fywyd ar geidwaid—rhieni fynychaf; a'n gorchwyl yw dangos dirfawredd dyledswydd a chyfrifoldeb y ceidwaid hyn i roddi addysg briodol i'r rhai sydd dan eu gofal a'u hymddiried.

Y mae pob bôd dynol yn gwneyd ei ymddangosiad yn y byd gyda theithi naturiol a dealldwriaethol, tueddiadau a chymhwysiadau ag sydd yn ei wahaniaethu ef yn gymaint oddiwrth bawb bodau ereill ag y mae yn wahaniaethu oddiwrthynt mewn ffurf ac ystum. Y mae holl ddynolryw, ar ol cael gafael mewn bywyd, yn dyfod yn ddarostyngedig i amgylchiadau a dygwyddiadau sydd yn tueddu i gryfhau y teithi gwreiddiol, neu i ddyrysu neu attal eu cynydd, a'u rhwystro, ac impio ar y boncyff gwreiddiol rai hollol wahanol iddynt. Y mae yn annheg gwneyd y plant yn gyfrifol am ddrygau a chyfeiliornadau sydd yn codi fel hyn; ond yn ddiau y mae y rhai a feddant ofal eu hyfforddiant yn gyfrifol, ac a fyddant felly. Y mae gan blant a chymdeithas yn gyffredinol hawl i gwyno os esgeulusir y ddyledswydd bwysig hon gan rieni.

Ceir llawer i ddyweyd fod addysg yn anghymhwyso personau i lafurio, ac yn eu gwneuthur yn anfoddog ar eu sefyllfa. Mae hwn yn esgusawd cyfleus i'r dynion hyny ag sydd well ganddynt i bobpeth gyfarfod â'u plant na'u danfon i'r ysgol am ychydig flwyddi, ac ymgymeryd â'u traul mewn ychydig lyfrau. Ond, atolwg, frodyr, rhoddwch orchudd dros un o'u llygaid, rhwymwch un o'u dwylaw, gosodwch hanner can-pwys wrth un o'u traed, rhag ofn i'r llygad chwennych eiddo ei gymydog, i'r llaw fyned i logell ei gyfaill, neu ei droed ei ddwyn i gyfeillach ddrwg. Mae hyna yn llawn mor resymol esgusodion â'r eiddoch chwithau. Fel y mae yr aelodau naturiol wedi eu rhoddi i'r plant i'w defnyddio, ac nid i'w camddefnyddio, ac mai dyma ddyben eu Creawdydd; i'r un dyben y mae cyneddfau yr enaid wedi eu rhoddi iddynt. Eraill o'r un dosparth a haerant fod addysg yn agored a chefnogol i hoced a thwyll. Gyda'r un

cymhwysder y gellir haeru fod *bara*, ffon ein bywyd, yn allu dinystriol —trwy ei roddi yn ngenau magnel y gall achosi marwolaeth. Y mae meddwl y plentyn fel *cae;* ac mor wir ag yr esgeulusa yr amaethwr hau gwenith ynddo, y mae y gelyn-ddyn yn sicr o'i hau âg efrau. Mae gofal y rhieni yn debyg i eiddo'r garddwr. Dyledswydd hwn yw gwrteithio yr egin, gwylio eu tyfiant, a noddi eu tyf-leoedd nes y deuant yn ddigon gwrol i ddal pwys y rhuthr-wynt. Tebyg yw dyledswydd pob rhieni. Egin tyner yw eu plant yn ngardd dynoliaeth, ac y mae y blagur yn gofyn gofal diesgeulus er eu dwyn i gryfder, ac i ateb dyben eu creadigaeth. Mae y fam a'r tad yn sicr o gerfio eu delw ar galon y plant. Y mae ymddygiad moesgar, heddychol, tirion, gonest un blaid yn dangos yn amlwg y graddau perffaith o addysg y maent wedi gael gan eu rhieni; tra mae y blaid arall yn gynhenllyd, yn wawdlyd, yn hocedus, yn bradychu esgeulusdod eu rhieni. Rhaid i'r meddwl gael ei oleuo a'i ddysgyblu; ac os esgeulusir hyn, nid yw y plentyn yn ymddyrchafu fawr yn uwch na'r anifail direswm a dderfydd, ac yn hollol anmharod ac anghymhwys i'r sefyllfa ddylai gyrhaedd. Nid oes dim yn lleshau y meddwl dynol yn fwy na thalu sylw i addysgiaeth plant, oblegid yma, ac yma yn unig, y canfyddir natur ac ansawdd yr egwyddorion cyntaf. Y mae naw o bob deg o drigolion y byd yr hyn ydynt, defnyddiol neu niweidiol i gymdeithas, trwy y manteision a gawsant pan yn blant. Credwn mai anwybodaeth yw mamaeth pob drwg, ac mai addysg dda yw gwrthweithydd anwybodaeth; ac, o ganlyniad, pe byddem ni yn berffaith mewn gwybodaeth, byddem berffaith hefyd mewn daioni. Mae y dyn hwnw, gan hyny, ag sydd yn esgeuluso rhoddi manteision addysgiadol i'w blentyn yn cefnogi drygioni, ac yn ngolwg cymdeithas y troseddwr mwyaf erchyll; ac i'r gwrthwyneb, y sawl a rydd addysg dda i'w blentyn sydd yn gwneyd y ddyledswydd bwysicaf âg ef, â'i oes, ac â'r byd yn gyffredinol, oblegid un o brif elfenau llwyddiant gwlad yw addysgiaeth ei meibion.

Y mae dyledswydd a chyfrifoldeb pob dyn yn cael eu mesur wrth ei allu; a phan ystyrir fod gallu gan rieni plant i arwain a thywys y meddwl ieuanc i ddilyn yr hyn sydd dda yn hytrach na'r hyn sydd ddrwg, i ddewis egwyddorion llwyddiant yn hytrach nag aflwyddiant; mewn gair, i ddewis egwyddorion y nefoedd yn hytrach nag egwyddorion uffern, y mae dirfawredd eu cyfrifoldeb a phwysigrwydd eu dyledswydd yn amlygu eu hunain. Mae yn naturiol i blant barchu eu rhieni a gwrando arnynt, ac y mae y teimlad greddfol hwn yn gosod yn llaw y rhieni y gallu effeithiol uchod, fel eu haddysgwyr, eu llywodraethwyr, a'u deddfwneuthurwyr. Dalen wen, lân, yw y meddwl ar y cyntaf, ac y mae pob gweithred a gair o eiddo y fam a'r tad yn cael eu hargraffu arni braidd yn annilëadwy. Pan yn dyweyd a gwneyd yn nghlyw a golwg y plant, yr ydys yn taflu hadau i'r fynwes ag sydd yn sicr o wreiddio a dwyn ffrwyth ryw amser.

Fel y gellir newid llwybr yr afonig pan yn fach, fel ag i beri iddi gymeryd taith hollol wahanol i'r hyn a ddechreuasai, y gellir yn rhwydd newid cwrs plant, trwy ofalu am danynt pan yn fychain; neu,

> "As the twig is bent
> So is the tree inclined."

Ffolineb yw dyweyd y gallant addysgu eu hunain pan mewn oedran.

Y mae yn wir fod rhai yn gwneyd hyn, ond eithriadau i'r rheol ydynt. Mae gwybodaeth neu addysg fel tân, rhaid ei gyneu yn gyntaf gan ryw weinydd allanol, *(external agent,)* ac yna y canlyniad naturiol yw lledaeniad, a'i ymdrech fydd gafaelu am fwy fwy o hyd. Rhaid dechreu arwain y meddwl ieuanc at drysorau gwybodaeth, ac yna, ar ol mwynhau ychydig, bydd yn naturiol ynddo i ymofyn rhagor.

Mae yn ffaith mewn *Hanesyddiaeth Naturiol*, ac yn wybyddus i'r rhai hyny ag sydd wedi talu sylw i hanes adar, pe cymerid aderyn deuddydd oed, o unrhyw rywogaeth, pa mor amddifad bynag o gerddoriaeth y byddai, a'i osod gerllaw nyth yr ehedydd, neu yr ëos, ni byddai gan yr aderyn mwyach ddim o lais ei rywogaeth ei hun, ond yn fuan deuai i efelychu ei gymdeithion newydd, nes llwyddo i'w dynwared i raddau helaeth. Dengys hyn yn eglur y ddyledswydd sydd yn nglŷn â rhoddi addysg i blant, a'u danfon i'r ysgol i'w hyfforddi a'u cadw rhag cymdeithion drwg ac anfoesol ein heolydd. Er fod y plentyn, efallai, yn groes i gael ei gyfyngu yn yr ysgol, mwy yw dyledswydd y rhieni i'w orfodi i fyned. Mae yn eglur mai pan yn blant y mae eu haddysgu. Pan yn blant y gellir eu hebgor oreu. Mae y meddwl yn fwy tyner ac argraffadwy, a thrwy hyny yn fwy derbyniadwy i addysgiaeth. Mae yr argraff ar y meddwl yn fwy parhaol, ac os oedir gan y rhieni roddi addysg iddynt yn y cyfnod hwn, bydd i ryw arferion drwg a llygredig lanw y meddwl, pa rai fydd yn wrthwynebol i ddiwylliant; ac y mae y diddysg a'r anniwylliedig fel y ffigysbren gynt, nid yn unig yn ddiffrwyth ynddo ei hunan, ond yn diffrwytho y tir.

Mor ddiystyr y mae llawer o rieni o lwyddiant dyfodol eu plant, fel y tueddir ni ar brydiau i amheu eu serchiadau atynt. Creulondeb mawr yw gollwng y plant o'n dwylaw i gefnfor llydan a gerwin y byd heb ddim hwyliau na llyw. Beth ydyw yr ychydig aur yn eu llogellau? Sothach darfyddadwy ydynt. Byddai ychydig ddysg iddynt yn well na channoedd o aur i ymladd â stormydd a brwydrau bywyd. Beth yw yr achos fod ein holl swyddi ennillfawr yn cael eu llanw âg estroniaid? Atebwn yn eofn, mai am nad yw rhieni Cymru yn cyflawni eu dyledswydd at eu plant yn gystal â chenhedloedd eraill. Pwy sydd luosocaf yn yr ariandai, swyddfeydd, gorsafoedd y cledrffyrdd, a swyddfeydd y cyllid yn Nghymru? Gwyddom mai Gwyddelod, Ysgotiaid, a Saeson; ac nid oes un rheswm dros hyn ond esgeulusdra rhieni Cymru yn addysgiaeth eu plant. Grwgnach y draul, danfon y plant i'r ysgol dri mis o bob blwyddyn, a thri diwrnod o bob wythnos, difrio, pardduo, ac absenu yr athraw, yw arferiad cyffredin rhieni Cymru. Cytunant am "gwarter" o ysgol fel prynu *het* neu *bâr o esgidiau.* Gwneyd iddynt weithio gartref ar ol oriau yr ysgol, yn lle eu hanog i ddilyn eu hastudiaeth. Derbyn a chefnogi achwyniad y plant ar eu meistr. Dyna rai rhesymau pa ham y mae ieuenctid Cymru yn îs mewn cymdeithas a masnach na'u cymydogion. Pan y mae ein sîr yn cael ei hollol amgylchynu gan y *march tân* un ochr, a chan y *môr* yr ochr arall, a phob masnach ac ymdrafodaeth ar gynydd, a geiriau y bardd yn cael eu gwirio,

> "Fod iaith y Sais, na fyddwn syn,
> Yn cau yn dŷn am danom,"

ni fydd peth mwy gwrthun yn yr oes nesaf na dyn ieuanc heb dderbyn digon o addysg i ddal cymdeithas â'i gymydogion. Bydd yn rhaid ei

arwain i'r orsaf a'i *entro*, yn yr un modd ag y gwna bechgyn Bristol â *boxes sebon* wrth eu danfon i'w cwsmeriaid. Dymunwn ofyn yn ystyriol i bob tad a mam, a ydynt yn sicr na fydd eu plant yn destun gwawd a dirmyg yn eu hoes, ac y byddant hwy yn cael eu dal yn gyfrifol am hyny.

Dyledswydd y rhieni yw gofalu am ymborth a dillad i'r plant, a'u dwyn i fynu, hyd y mae ynddynt, yn blant iachus a gwrol; ond y ddyledswydd fwyaf, a'r bwysicaf, yw yr un a noda ein testun. Mae rheswm yn ei nodi allan fel yr olaf a'r mwyaf dymunol o'r oll. Nis gellir cydnabod fod neb rhieni wedi cynysgaethu eu plentyn âg unrhyw les a budd trwy ei ddwyn i'r byd, os gwnant ar ol hyny esgeuluso gwrteithiad ei feddwl a'i addysgiaeth, dyoddef iddo dyfu i fynu i'w faintioli fel bwystfil i arwain bywyd diddefnydd i eraill, a chywilyddus iddo ei hun. Mae addysgiaeth i'r meddwl yr un peth a glanweithdra i'r corff. Mae prydferthwch y naill fel y llall, yn ymgolli trwy esgeulusdra. Mae y tad a ofala am borthi a dilladu ei blentyn, ond a esgeulusa y ddyledswydd hon, yn fwy na hanner ei lofruddio, gan ei fod yn dystrywio yr hanner oreu o hono; ac nid yw yn arbed yr hanner arall ond i arwain oes o gywilydd.

Dyledswydd arbenig y rhieni yw addysgu eu plant mewn moesau da, *(etiquette, or good manners,)* neu roddi manteision iddynt i gyrhaedd y cyfryw. Gellir galw y diffyg hwn yn ddiffyg cenhedlaethol Cymru. Llawer bachgen talentog o Gymro sydd wedi ei luddias yn hollol gan y diffyg hwn i gyrhaedd safle anrhydeddus mewn cymdeithas. Y mae ymddygiad moesgar dyn ieuanc yn hawlio derbyniad a chroesawiad pob cymdeithas. Dymunem adgofio pob rhieni mai tebyg i fedd wedi ei wyngalchu yw pob bachgen a geneth o'r eiddynt ag sydd yn cael eu dilladu yn wychion, ond yn ddiddysg a difoes.

Dyledswydd bwysig arall y rhieni yw dysgu eu plant i barchu eu hunain. Nid oes dim yn fwy naturiol i ddyn na hunan-barch, ac nid oes un elfen mor effeithiol â hon i weithio allan gymeriad difrycheulyd a llwyddianus, ac i wrthweithio tueddiadau llygredig y galon ddynol. Ffrwyth hunan-barch yw gonestrwydd, sobrwydd, moesgarwch, hunan-ymwadiad, geirwiredd, ac annibyniaeth personol. Mae ein traethawd wedi chwyddo yn fwy na'n bwriad, ac felly rhaid i ni adael allan rai sylwadau a ddymunem wneuthur yn y cyfeiriad hwn.

Efallai y gellir casglu oddiwrth yr hyn a ysgrifenwyd, ein bod yn cyfeirio yn fwy neillduol at y ddyledswydd o roddi addysg i fechgyn yn fwy nag i ferched. Nid oedd ein bwriad i wahaniaethu rhyngddynt, ond cymerwn ryddid i sylwi ychydig yma ar y "rhyw deg," a'r ddyledswydd o'u haddysgu. Nid wyf yn dysgwyl cymeradwyaeth un *hen lanc* i'm sylwadau. Addysg briodol y rhyw hyn sydd un o bethau mwyaf pwysig y bywyd dynol. Pwy ddichon ddatgan effeithiau daionus a dylanwadol meistresi a mamau wedi derbyn addysg dda? Pwy sydd â gofal y meddwl tyner a derbyniadwy yr ydym wedi sôn am dano? Neb ond y fam am yspaid o amser, ac

> "Fel bo'r fam y bydd y plant
> O dyfiant ac o dafod."

Gyda'r un priodoldeb ag yr ydym yn galw ein hen iaith yn "famiaith," y gellir galw ein harferion yn arferion ein mamau. Onid yw yn ddyledswydd orbwysig ar rieni i roddi addysg i'r rhai hyny a fydd yn llanw y safle anrhydeddus a chyfrifol o famau yn yr oes nesaf? Nid eu magu

megys delwau lliwiedig. Cofiwch, rieni Cymru, fod llawer teulu yn amddifad o bob cysur o herwydd eich esgeulusdod chwi. Mae yr eneth sydd wedi cael addysg gan ei rhieni yn dangos ei werth pan yn fam. Diflana tegwch ei hieuenctid, ond y mae yn dal yn ei dylanwad dros ei chymhar gyda mwy o swyn. Ar ei haelwyd ni chlywir sôn am fwganod a thylwyth têg, deongli breuddwydion a throi disiau, darllen *fortune* nac erlid clep. Pe byddai ieuenctid ein byd yn cael addysg briodol gan eu rhieni, ni byddai sôn am y fath bethau, am mai eu gelyn gwaethaf yw addysg, a'r diddysg, yn ddieithriad, yw y rhai sydd yn ymlynu wrthynt.

Os nad ydym wedi profi hyny eisoes, dymunem wasgu ar feddyliau pob un o berchen plant, fod eu dyledswydd atynt eu hunain, at eu plant, at gymdeithas, ac at Dduw, yn galw â llais eglur ac uchel arnynt i ddiwygio yn hyn, a thrwy hyny gwnant ddyrchafu eu hunain, eu plant, a'u cenedl.

Rhodd oddiwrth ei Dduw i ddyn yw plant, ac y mae yn gorchymyn i bob rhieni am bob plentyn a rydd i'w gofal, "Mâg ef i mi," ac "Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd, a phan heneiddio, nid ymedy â hi."

*Talsarn, Ceredigion.* JENKIN JENKINS, (*Aeronian.*)

## Y BLANED MERCHYR.

YSTYR y gair *planed* yw gwibiwr. Gair o darddiad Groegaidd ydyw. Ymddengys y planedau fel pe byddent yn gwibio yn y ffurfafen. Nid ydynt yn sefydlog fel rhai o'r sêr. Pan fyddo yr awyr yn glir, a dim tarth yn y terfyngylch, gwêl llygad craffus ar rai prydiau wedi newydd gostwng haul seren fechan ddysglaer yn y gorllewin. Nid yw byth dros ddeg gradd ar hugain oddiar y terfyngylch. O'r terfyngylch i'r man yn y ffurfafen sydd yn syth uwch eich pen y mae pedwar ugain a deg o raddau. Os rhenwch y pellder o'r gorllewin i'r man hwnw yn dair rhan gyfartal, a mesur un rhan o'r gorllewin yn fuan wedi gostwng haul, chwi gewch afael yn y fan lle mae y seren pan fyddo yn y man uwchaf yn yr hwyr. Y seren yw y blaned MERCHYR. Gwreiddyn y gair yw *march*, sef ceffyl. Yr un peth â *marchwr* yw Merchyr. Mae'r geiriau *marchnad*, *marchnatâwr*, ac yn Saesoneg *merchant*, wedi tarddu o'r un gwraidd. Beth oedd y cysylltiad cyntefig, nis gallwn ddyweyd. Ystyrid Merchyr yn dduw gan yr hynafiaid, a chysegrwyd un diwrnod o'r wythnos i'r duw hwnw, ac yr ydym ni yn ei alw yn *ddydd Mercher*.

Ymddengys y blaned Merchyr yn y dwyrain ar doriad y dydd mor fynych ag yn y gorllewin. Tybiai yr hynafiaid, am hyny, fod dwy blaned o'r un fath, un yn foreuol a'r llall yn hwyrol. Ni wyddent hwy nemawr am gylchdröadau y planedau. Galwent y seren foreuol Apollo, duw'r dydd a goleuni, a'r un hwyrol Merchyr, duw'r lladron, am fod y tywyllwch yn ei ganlyn, pryd y mae lladron yn myned oddiamgylch i ladd ac yspeilio.

Trwy ysbienddrych mawr gwelir fod y blaned Merchyr, yn ei thaith o gylch yr haul, yn ymddangos fel y lleuad, yn gorniog, ac yn cynyddu yn raddol hyd nes y cyrhaeddo y llawn, ac yna yn lleihau yr un mor raddol hyd nes y collir hi yn mhelydrau yr haul. Y cyfnewidiadau ymddangosiadol hyn a achosir oherwydd fod llwybr y blaned rhwng llwybr blynyddol y ddaear a'r haul.

Mae cylchdro blynyddol Merchyr yn cynnwys pedwar ugain ac wyth diwrnod, tair awr ar hugain, pymtheg mynyd, a chwech eiliad a deugain —mor gywir y mae seryddwyr wedi cyfrif amser ei daith! Fel y sylwyd o'r blaen, nid yw cylchoedd blynyddol y planedau yn berffaith rownd, ond yn hytrach yn hirgrwn *(oval)*, a chylch Merchyr yw y mwyaf hirgrwn o honynt oll.

Pellder y blaned yn filldiroedd oddiwrth yr haul, pan y mae yn y man pellaf oddiwrtho, yw pedair miliwn a deugain, pedwar cant a thriugain mil a phymtheg. Pan fyddo agosaf at yr haul, nid oes rhyngddynt ond naw miliwn ar hugain, tri chant a phum can mil. Gwahaniaeth y ddau bellder yw pymtheg miliwn, un cant a thriugain mil a deg, am hyny y mae ei gylch yn dra hirgrwn.

Teithia y blaned mewn pedair awr ar hugain ddwy filiwn a phedwar can mil o filldiroedd. Mae hyny yn gan mil mewn awr, ac wyth-ar-hugain mewn eiliad! Y fath bwer raid fod yn y fraich a roddes iddi yr ysgogiad cyntaf! Braich yr Hollalluog ydoedd, yr un fraich ag sydd yn dy gynnal di a ninau.

Pan fyddo y blaned yn y man agosaf i'r ddaear mae naw miliwn a deugain a dau cant a thair mil ar hugain o filldiroedd rhyngom a hi; ond yn y man pellaf mae cant a deuddeg miliwn ar hugain rhwng y ddaear a'r blaned; am hyny, ymddengys trwy ysbienddrych yn llawer mwy o faint pan fyddo agosaf na phan fyddo yn agos i dair gwaith mor belled.

Tryfesur y blaned mewn milldiroedd yw 3150; am hyny, y mae oddeutu chwech a hanner yn llai na'r ddaear, hyny yw, byddai yn rhaid cael chwech Merchyr a hanner i wneuthur pellen o faintioli y ddaear. Ni wyddys yn iawn pa un a yw Merchyr yn berffaith rownd fel pêl, neu ynte fel y ddaear, yn tynu i mewn tua'r pegynau ar ddull *orange*. Er fod y blaned yn dyfod weithiau yn gymhwys rhyngom ni â gwynebpryd yr haul, ac yn ymddangos arno fel pysen dros gymaint ag wyth awr, os bydd yn croesi ei ganol, mae yn rhy anhawdd, oherwydd y pellder, i benderfynu y pwynt hwn. Pan ar wyneb yr haul ymddengys yn berffaith rownd, ond nid ydyw yr ymddangosiad yn brawf ei fod felly. Yr ydys wedi cael allan ei fod, fel y ddaear a'r planedau ereill, yn troi ar ei begynau, a hyny mewn pedair awr ar hugain a phum mynyd. Y mae hefyd yn eithaf tebygol ei fod yn cael ei orchuddio gan awyrgylch.

Ymddengys yr haul i drigolion Merchyr oddeutu saith cymaint o faint ag yr ymddengys i ni ar y ddaear, am hyny mae ei oleuni, os nid ei wrês hefyd, gymaint â hyny yn fwy iddynt hwy nag i ni. Gellir casglu oddi wrth y ffaith hon fod eu cyfansoddiad yn wahanol iawn i ni, onid oes achosion yn cyfryngu i leihau y goleuni, megys awyrgylch gymylog, neu ryw addasiad neillduol yn y llygaid. Rhaid fod y gwrês a'r goleuni yn cyfnewid llawer yn nghwrs cylchdröad, oherwydd pellder y blaned oddi wrth yr haul yn un rhan o'i chylch, a'i hagosrwydd ato mewn man arall, oblegid y mae pymtheg miliwn o filldiroedd yn bellder mawr. Y mae yn anhawdd cael allan fod yn Merchyr wahanol dymhorau fel sy genym ni ar y ddaear, oblegid ni wyddys ddim a ydyw y pegynau yn gogwyddo fwy neu lai at arwynebedd ei lwybr o amgylch yr haul, oblegid nid oes gwahanol dymhorau heb y fath ogwyddiad.

Dywedasom yn ein sylwadau ar yr haul y mis diweddaf fod meidronyddion wedi gallu pwyso corff yr haul. Mae egwyddorion meidronaidd

wedi eu galluogi i gael allan hefyd bwysau Merchyr. Mae yn agos mor drymed â'r ddaear, er nad yw yn chwechfed ran ei maintioli. Pedwar rhan o bump o bwysau y ddaear yw pwysau Merchyr, o ganlyniad mae ei ddefnydd yn llawer dwysach na defnydd y ddaear. Pwysa yn agos gymaint â phe bai yn belen o haiarn. Hefyd, y mae pownd ar y ddaear yn pwyso yn Merchyr bownd ac wyth dram. Byddai yn anhawdd i ni, gan hyny, gerdded ar y blaned hon, oblegid byddai ein coesau a'n traed yn rhy drwm, ond nid yn agos mor drymed ag yn yr haul, fel y sylwyd yn rhifyn Ionawr. Chwi wyddoch mai sugndyniad *(attraction)* y ddaear yw yr achos o bwysau, ac i fod nerth y sugndyniad yn wastadol yn gyfartal i ddwysder a maintioli y gwrthddrych. Chwi wyddoch fod pelen o haiarn yn drymach na phelen o bren o'r un maintioli. Paham? Am fod haiarn yn ddwysach na phren, am hyny mae y sugndyniad yn cael mwy o afael ynddo. Yn gymaint, gan hyny, ag fod y blaned Merchyr yn agos mor drymed â'r ddaear, hyny yw, yn cynnwys cymaint o ronynau, ac yn llawer llai o dryfesur, fel nad oes cymaint o dueddiad mewn gwrthddrych i symud oddiar ei gwyneb pan yn troi, mae nerth sugndyniadol y blaned yn hytrach yn fwy na sugndyniad y ddaear. Mae hyn yn ffaith bwysfawr, ac yn un a ddylai pob ymgeisydd am wybodaeth ddeall yn llwyr.

Yr ydym yn sicr fod mynyddoedd yn Merchyr, a rhai mynyddoedd uchel iawn. Dichon fod ynddo hefyd fynyddoedd tanllyd, oblegid unwaith, pan oedd y blaned yn tramwy dros wyneb yr haul, sef yn y flwyddyn 1799, meddyliodd Schröter iddo ganfod spotyn goleu yn agos i'w chanol. Nid oes neb wedi dygwydd ei ganfod byth wedi'n. Y mae yn eithaf tebygol mai mynydd tanllyd welodd y seryddwr, yn cyneu ar yr amser. Mae rhai o'r mynyddau oddeutu un filltir ar ddeg o uwchder. Nid oes un mynydd ar y ddaear cyfuwch. Gawrisankar yn yr Himalaya yw yr uwchaf a wyddom ni am dano. Mae hwnw oddeutu naw mil ar hugain o droedfeddi yn uwch nag arwynebedd y môr; ond beth yw hyny at un filldir ar ddeg?

Cymaint â hyn am y blaned Merchyr, yr agosaf a wyddom ni am dani at yr haul. Os oes byd sydd yn agosach ato na hwn, nis gall llygad dyn byth ei ganfod oherwydd y dysgleirdeb y mae ynddo. "A ydych yn tybied," medd rhywun, "fod trigolion ar y blaned hon?" Tebygol fod. Pan yn adeiladu tŷ, yr ydych yn bwriadu i ddynion fyw ynddo. Rhesymol yw meddwl fod y Crëawdwr doeth yn creu byd gyda'r un fath ddyben, sef i greaduriaid gael byw a mwynhau dedwyddwch ynddo. Ond mwy ar y pwnc hwn yn ei amser priodol, sef wedi gorphen â'r gyfundraeth heulaidd. Diweddwn y tro hwn yn ngeiriau y Salmydd,—"*Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylaw.*"

## PROPHWYDOLIAETH.

Mr. Golygydd,—Mawr y carwn i, a llawer ereill oeddynt yn bresenol yn Nghwrdd Cwarter Aberdâr, weled pwnc y gynadledd yn cael ei drin yn Yr Ymofynydd. Ymddengys i mi ei fod yn bwnc helaeth, a'r fath na ellir gwneyd cyfiawnder âg ef mewn ychydig amser. Os na chamsyniais, dywedodd un o'r llefarwyr nad oedd yn swydd prophwyd i rag-

fynegi y dyfodol ragor nag a allai pob dyn craffsylw ragweled drwy iawn arferiad o'i synwyrau naturiol. Dywedodd un arall fod yn swydd prophwyd i ragfynegi pethau dyfodol, ond pethau wrth y drws, pethau ar fin cymeryd lle, yn ol fel y deallais i. Daliasoch chwithau fod yn swydd prophwyd i ragweled ac i ragfynegi, nid yn unig bethau wrth y drws, a ellir yn fynych ragweled fel canlyniad amgylchiadau, ond hefyd pethau yn mhell yn y dyfodol, na all dyn drwy unrhyw arferiad o'i gyneddfau naturiol byth eu rhagweled. Nis gallasem ni, y gwrandawyr, weled fod nemawr o wahaniaeth yn marn y ddau flaenaf ar y pwnc, oblegid gellir yn fynych ragweled pethau wrth y drws drwy resymau oddiwrth achosion ac effeithiau. Er enghraifft, os bydd dyn yn treulio ei amser a'i feddiannau ar oferedd, gellir rhagweled fod cwymp o'i flaen. Nid anhawdd yw gweled fod cyfnewidiadau i gymeryd lle mewn teulu, os bydd y pen mewn clefyd angeuol. Rhagfynegodd Dr. Channing y buasai rhwygiad yn sicr o gymeryd lle rhwng Taleithiau Gogleddol a Deheuol America oherwydd caethwasanaeth. Nis gallasai ddyweyd pryd y dygwyddai, ond y byddai yn sicr o ddygwydd os elai pethau yn mlaen fel y gellid dysgwyl. Ai pethau cyffelyb i hyn oedd rhagfynegiadau y prophwydi Iuddewig? Ni ddywedodd y Parch. T. Thomas wrthym pa mor bell oddiwrth y drws y cyrhaeddai eu golygon. Y mae hwn yn bwnc pwysfawr yn fy ngolwg i, o leiaf; a gobeithio y bydd i rywun sydd wedi talu sylw manwl iddo ei gymeryd mewn llaw yn YR YMOFYNYDD, fel y caffom fwy o oleuni arno. Ydwyf, &c.

UN OEDD YNO.

[Nid oes eisieu dyweyd y bydd tudalenau YR YMOFYNYDD yn agored i bwy bynag a ddewiso ysgrifenu ar y pwnc hwn, gan nad beth fyddo ei olygiadau. Yr unig beth a ddeisyfwn yw, fod i'r neb a ysgrifeno arno i ochelyd personoliaethau a chwerwedd, yr hyn sydd yn fynych yn niweidio dadl. Nid oes dim sydd yn fwy adeiladol na dadl yn cael ei chario yn y blaen yn alluog, ac mewn yspryd a weddai i ddynion sydd â'r gwirionedd yn eu golwg yn beth llawer mwy o bwys na buddugoliaeth.—GOL.]

## MEDDWDOD A'I FFRWYTHAU.

PRIN yr oeddwn wedi gadael clwyd y meddyg nad oeddwn gartref, wedi rhedeg yno yr holl ffordd, â'm llyfrau genyf; a chan ruthro i mewn i'r tŷ, bum yn agos â tharo fy mam i lawr, yr hon oedd ar y pryd yn ysgubo'r llawr. "Mam," meddwn, "edrychwch!" gan ddal y llyfrau i fynu ar yr un pryd. "A wyddoch chwi pa fodd y cefais i hwynt? 'Rwyf yn sicr na wyddoch; ond mi ddywedaf wrthych. Y Meddyg Brown a roddodd eu benthyg i mi am gludo y glô i'r seler; a dywedodd fod ganddo eto gymaint ag a allwn ddarllen am dri mis."

"O! deuwch, gwnewch edrych arnynt," ebai Susan, gan daflu ei rhwbiedydd i lawr, â pha un y cynorthwyai ei mam. "Edrychwch ar y darluniau yma! Mae'r llyfr yn llawn o honynt. A gaf fi, Frank, ddarllen hwnyma? Yr wyf yn sicr mai un da yw, oherwydd fod cymaint o ddarluniau ynddo."

"Cewch;" a phan ddaw John adref, fe all yntau ddarllen hwn; ond cofiwch, rhaid peidio ei rwygo, na phlygu y dail."

O fewn hanner milldir i'r tŷ yr oedd coedwig, trwy ba un yr oedd llwybr a ddefnyddid ond anfynych, oddieithr ar amser helfa. Yn groes i'r llwybr yma gorweddai coeden a chwythwyd i lawr gan y gwynt. I'r

man hwn y cyrchais âg un o'm llyfrau genyf; nid oedd nemawr o wahaniaeth pa un, gan fod y naill yn llawn mor ddyddorol â'r llall i feddwl sychedig am wybodaeth.

Ond y llyfr a ddygwyddodd i mi gymeryd a draethai ar "Ddrygedd Meddwdod." Yma, yn y lle unig hwn, heb ddim ond natur yn fy amgylchynu, y darllenais gyntaf am ddrygau meddwdod. Nid anghofiaf byth y prydnawn haf hwnw. Tawelwch oedd yn llywodraethu natur. Tawel sibrwd y gwynt, trydar yr adar, a sïad y trychfilod, ac yn awr ac eilwaith crawciad yr ydfrain, oedd yr unig seiniau a syrthient ar fy nghlustiau. Cefais fod y rhai hyn yn foddion i'm cynorthwyo i ddarllen yn hytrach na'm haflonyddu. Darllenais nes i gysgodau yr hwyr fy nal, pan y cyfeiriais fy nghamrau tuag adref, gan fyfyrio ar yr hyn a ddarllenaswn wrth fyned. Cyn gynted ag y cefais gyfleusdra, dechreuais holi fy nhad ar gynnwysiad yr hyn a ddarllenaswn. "'Nhad," meddwn, "dywed y llyfr hwn mai meddwdod yw melldith ein gwlad."

"Wel, fy mab, a pheth am hyny? Os ydyw yn felldith i'r wlad, paham nad attelir ef gan rywun? Nid ymddengys fod y bobl yn deall pa fodd i'w attal; dyna paham na wneir hyny. Y cwestiwn yw, Pa fodd y gwneir hyny? Os gellwch chwi ateb pa fodd, nid oes un amheuaeth na wneir hyny yn fuan."

"O! mae hyna yn ddigon hawdd, 'nhad."

"Hawdd, fy mab," meddai, gan orphwys ar ei raw-bâl.

"Ydyw. Yn awr, gwrandewch. Pe gwnai pob bachgen ieuanc o dan ugain oed addaw na yfai o'r hyn sydd yn meddwi, yna, mewn deugain mlynedd, neu lai, ni fyddai un meddwyn yn y wlad."

"Yr wyt yn iawn, fy mab. Ond, yn awr, dyma'r cwestiwn, Pa fodd y gellir argyhoeddi pob bachgen ieuanc i lwyr-ymwrthod â diodydd meddwol? Pe gallesid gwneuthur hyny, buasai dy gynllun di yn un rhagorol; ond cyhyd ag y creda'r bobl fod diodydd meddwol yn angenrheidiol i'w hiechyd, ni roddant hwy i fynu, beth bynag fydd i ti ei feddwl neu ei ddymuno."

"Nis gwn i ddim," meddwn, "ond a ddywedais. Ond yr wyf yn methu deall sut y mae dynion yn dyfod yn feddwon, gan nad oes 'dim' genyf fi yn fwy croes na chyffwrdd â hi."

"Gobeithiaf y bydd i Dduw, yn ei anfeidrol ddoethineb a'i drugaredd, dy gadw felly. Ond at y cwestiwn—y modd y mae dynion yn dyfod yn feddwon. Gwneir hyn fel pob peth arall—ychydig ar y tro. Ni ddaeth un dyn yn feddwyn ar unwaith, ond trwy yfed ychydig ar ol ychydig. Clywais ddyn unwaith yn dyweyd, yr hwn a fu yn feddwyn hynod, nad oedd ganddo yr un archwaeth at ddiodydd meddwol pan yn fachgen ieuanc. 'Y cam cyntaf a gymerais tuag at ddyfod yn feddwyn oedd,' meddai, 'esgeuluso y cwrdd hwyrol ar y Sabboth, a chymeryd fy arwain gyda bechgyn ieuainc i'r tafarndy. Gwyddwn nad oedd yn iawn, a phenderfynais nad elwn eto; ond, O! mor frau ac egwan yw ein penderfyniadau goreu. Aethum eilwaith ac eilwaith, nes y daeth yn arferiad cyson. Yn raddol daethum i fynychu y dafarn yn yr wythnos yn gystal ag ar y Sabboth. Cynygwyd cyfarfodydd er difyru, collwyd amser, cynyddodd fy chwant at ddiodydd; ond, ar ol y cwbl, cymerodd ddeng mlynedd cyn i mi gyrhaedd ystôl y meddwyn.'"

"Wel, 'nhad, ni fyddaf fi byth yn feddwyn," meddwn.

"Meddyliodd y dyn yna yr un peth, pan mor ieuanc â thithau, ond fe

syrthiodd; ac nid wyf yn gweled un rheswm na elli dithau fod yn feddwyn hefyd, os na phenderfyni beidio byth â chyffwrdd â'r diodydd sydd yn meddwi. Os wyt yn ddigon penderfynol i osod hynyna mewn gweithrediad, drwy fendith Duw, ti a fyddi yn ddiogel."

"A oes llawer yn byw heb ddiodydd meddwol?"

"Nid cymaint ag a allasai fod, oherwydd yr wyf yn meddwl y gallasai pawb fyw yn well hebddi."

"Dywedwch wrthyf, sut y mae yn felldith i'r wlad, oherwydd yr wyf yn methu deall beth sydd gyda meddwdod i wneyd âg achosion gwladol. Yr oeddwn i yn meddwl mai effeithio ar y meddwyn yn unig yr oeddynt."

"Cyfrifir fod triugain miliwn o bunnau yn cael eu gwario bob blwyddyn ar ddiodydd meddwol. Meddyliwch am y trueni ofnadwy sydd yn rhwym o ganlyn gwariad y fath swm anferthol o arian. Ond nid yw y gwariad yn hanner y drwg. Meddyliwch am y troseddau a gynyrchir drwyddynt. Pe cyfrifid yr holl gyhuddiadau sydd beunydd o flaen ein hynadon, yr wyf yn credu y cawsem fod pedwar ugain a phedwar ar bymtheg o bob cant yn canlyn meddwdod ryw fodd neu gilydd. Yn awr, er cospi yr achosion hyn, rhaid cadw byddinoedd cyfain o heddgeidwaid; rhaid adeiladu carcharau a chynal carcharorion; rhaid talu barnwyr, a miloedd o bethau ereill, nas gallaf feddwl am danynt yn bresenol. Eto, edrych ar y tlodi sydd yn ei ganlyn, a'r canlyniad yw y telir miloedd ar filoedd o bunnau o dreth ychwanegol o herwydd hyny. Yn awr, fe allai y caret wybod pwy sydd i dalu am y pethau hyn—y rhai llafurus. A chaniatâu fod triugain miliwn yn cael eu gwario bob blwyddyn ar y fasnach feddwol, yr wyf yn credu fod y treuliadau ereill a achlysurir drwy y fasnach yn llawer mwy. Os dymuni wybod canlyniadau meddwdod, dôs i'r carchar, a gofyn i'r carcharor cyntaf a gyfarfyddi yno, beth yw yr achos ei fod ef yno, ac efe a ateb,—caru meddwdod, yna colli cymeriad; heb waith, lladrad a ganlynodd, ac yma y mae. Dôs drachefn, a gofyn i'r dyn sydd yn yr hwlc, a thi a gai glywed yr un ateb. Tyred eto i'n gweithdai neu ein gwallgofdai, a chai glywed yr un ateb, ysywaeth, yn rhy fynych. Dôs i'r clafdy, a chai fod y drydedd ran o bob pedair o'r damweiniau wedi eu hachosi drwy feddwdod. Gofyn i'r gweithiwr tlawd, egwan yna, sydd yn methu braidd â dal ei offerynau yn ei ddwylaw crynedig fel ag i ennill lluniaeth —gofyn iddo yr achos o'i gyflwr presenol, ac os gwna gyfiawnder âg ef ei hun, fe ddywed, 'meddwdod.' Gofyn i'r hen wr tlawd penwyn yna, a welir yn myned o ddrws i ddrws, y modd y daeth mor druenus ac anghenus, ac fe ddywed wrthyt, os dywed y gwir, 'meddwdod.'"

"Ond, 'nhad, nid ydych yn ceisio dyweyd mai meddwdod yw yr achos o bob anffawd."

"Na, na; ond pe gallem olrhain y rhan fwyaf o'r anffodau a ganfyddwn yn ddyddiol o'n hamgylch, caem fod llawer o honynt, naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, wedi eu hachosi trwy feddwdod. Fe'm harweinir i, wrth edrych ar y peth yn bwyllog, i feddwl fod diod gadarn yn offerynol, yn llaw Duw, i gospi'r ddynoliaeth; canys pa le bynag y canfyddwn wlad wedi ymroddi i ddiodydd meddwol i raddau helaeth, mae tynged y wlad hòno, hwyr neu hwyrach, wedi ei selio. Pe gwnaem adolygu hanes y byd, caem fod y gwledydd hyny a ymhyfrydent mewn diodydd meddwol wedi dechreu yn fuan wacthygu yn y rhinweddau uwchaf a goreu, a dadfeiliad yn fuan yn cymeryd gafael yn

y cyfansoddiad, a'r canlyniad fu iddynt gael eu gorchfygu gan genedl o gyfansoddiad cryfach ac ysprydoedd dewrach. Gallwn edrych nid yn unig ar hanesyddiaeth amherodraethau, cenedloedd, a theyrnasoedd, ond ar bersonau unigol yn gyffredinol; canys pa le bynag y bydd archwaeth at ddiodydd yn teyrnasu, hwyr neu hwyrch yr arweinia i ddrwg."

Ni chlywais i fy nhad yn siarad erioed o'r blaen mor darawiadol ar unrhyw destun; ac fel y bwriadodd, cafodd ei ymddyddan effaith ddofn arnaf.

Ni fyddaf fi byth yn feddwyn, meddwn, ac ni wnaf hwynt mwy yn wrthddrychau gwawd, oblegid y maent yn fwy teilwng o'm trueni. O! fel yr ydym yn tosturio wrth ddyn gwallgofus; onid dyn gwallgof yw y meddwyn? yr holl wahaniaeth ag yr wyf fi yn weled yw, fod y meddwyn yn colli ei synwyrau yn wirfoddol, pan nad yw y llall felly.

G. Evans.

## RHYFEDDODAU.

*Torth dra hen.*—Dymunem hysbysu, er adeiladaeth darllenwyr hynafiacthol Yr Ymofynydd, fod torth o fara dros chwe chan mlwydd oed i'w gweled yr amser a fynont, os teimlant ar eu calon i fyned ar bererindod i Ambaston, yn Derbyshire. Teulu Soar sy berchen arni. Cafodd ei chrasu yn nheyrnasiad y brenin John, ac a gyflwynwyd i'r Stâd gydag anrheg y goron. Byth oddiar hyny mae wedi cael ei chadw gyda'r ysgrifau. Dywed gohebydd y *Nottingham Review* (1838) iddo weled y dorth, a'i handlo lawer gwaith dros ystod hanner can mlynedd, ac na chanfyddodd ynddi un cyfnewidiad trwy yr holl amser, oddieithr fod ambell i friwsionyn yn cael ei ladrata yn awr ac yn y man gan y cywraint. Os nad ydym yn camsynied, mae torthau henach o lawer i'w gweled yn *Museum* Naples. Torthau yw y rhai hyny a gafwyd yn adfeiliadau Pompeii a Herculaneum, dwy dref a orchuddiwyd gan *lava* mynydd tanllyd Vesuvius, yn y flwyddyn triugain a deunaw o oed Crist, ac a ddarganfyddwyd yn gynar yn y canrif diweddaf. Mae'r torthau hyny yn ddeunaw cant oed! Nid oes dim eisieu i neb daflu torth Ambaston na'r rhai hyn i ben y berth i sychu.

*Hinsawdd ddymunol.*—Tynwyd y nodiadau a ganlynant allan o Almanac blwyddyn Lapland a Siberia:—Mehefin 23, yr eira yn toddi; Gorphenaf 1, yr eira wedi diflanu; Gorphenaf 9, y caeau yn wyrdd; Gorphenaf 17, llysiau yn llawn dwf; Gorphenaf 25, y coedydd a'r llysiau yn blodeuo; Awst 2, ffrwythau yn addfed; Awst 10, yr hadau yn hidlo; Awst 18, yn bwrw eira; yr eira yn parhau ar y ddaear hyd Mehefin 23. Beth ddywed ffermwyr Cymru am hyn?

*Maintioli tònau Mór yr Atlantic.*—Ymddengys oddiwrth sylwadau Dr. Scoresby, a wnaethwyd yn 1847—8, fod y tònau mewn awel gref o ddeuddeg i ddeunaw troedfedd o uwchder. Mewn tymhestl gynddeiriog oddeutu pump-a-deugain; hyny yw, dwy-ar-hugain a hanner yn uwch, a chymaint â hyny yn îs nag arwynebedd y môr. Mae o ddeutu cant a hanner o droedfeddi o frîg un dòn i frîg y nesaf ati mewn gwynt brisc, ond mewn tymhestl ddirfawr mae nid llai na chwe chant o droedfeddi, ac y mae'r tònau y pryd hwnw yn teithio mor gyflym â deng milldir ar hugain yr awr. Mae rhywbeth yn ddychrynllyd o hardd yn yr olygfa y pryd hwnw.

## Corynod.

Dyn o gorffolaeth bychan yw còr neu goryn, yn Saesoneg *dwarf*. Dynion bychain yw corynod. Sonir yn y Beibl am gewri, eu grym rhyfeddol, a'u maintioli anferth. Mewn un man yn unig y darllenwn am gòr, a hyny mewn modd cyffredinol. Yn Lefiticus xxi. 20, gwaherddir i "gòr," ac ereill a fyddo arnynt ryw nam, i wasanaethu wrth yr allor. Er hyny mae sôn yn foreu iawn am gorynod.

Yr oedd yr arfer o gadw corynod mewn llysoedd brenhinol yn dra hen. Cadwai brenhinoedd yr Aifft gorynod yn mhlith eu gweision, ac yr oeddynt mewn bri mawr gan y Rhufeiniaid, er na ystyrid y meddent fwy o synwyr nag epäod. Yr oedd gan yr Ymerawdwr Augustus goryn yn pwyso ond dau bownd ar bymtheg, a dim ond dwy droedfedd o hŷd. Meddai, er hyny, ar lais cryf echrydus. Ei enw oedd Lucius.

Cadwai Julia, nîth Augustus, goryn o'r enw Cleopas. Yr oedd yn ddwy droedfedd a chwarter. Yr oedd ganddi hefyd gorynes o'r un hŷd, o'r enw Andromache.

Dywed Platerus am un John Decker, neu Ducker, coryn Seisnig (1610), "Mae ei lun genyf wedi ei dynu yn ei gyflawn hŷd. Mor belled ag y gallwn ddeall wrth ei wyneb, y pryd hwn yn llawn crychni, yr oedd oddeutu pump a deugain oed. Yr oedd ei farf yn hir, ac yn cyrhaeddyd bron hyd y llawr, oblegid nid oedd ond dwy droedfedd a hanner. Yr oedd ei aelodau, er hyny, yn gyflawn a chyfartal. Ni welais i ddyn erioed yn llai na Decker."

Un Richard Gibson oedd y coryn mwyaf nodedig a ddarllenasom ni am dano erioed. Ganwyd Gibson oddeutu y flwyddyn 1615. Yr oedd yn nodedig, nid yn unig am ei fychander, ond fel lluniedydd. Un o ysgolheigion De Cleyn ydoedd, ac efelychai Sir Peter Lely. Cafodd ei apwyntio yn luniedydd i'r ddwy dywysoges Mari ac Anne—breninesau wedi hyny. Darlun o'i waith yn cynrychioli "y ddafad a gollasid" a werthfawrogid yn fawr gan Charles I., yr hwn a'i rhoddod i Vandervort i ofalu am dano. Gosododd y gwr hwnw y darlun i gadw mor ofalus fel, pan ofynodd y brenin am dano, na wyddai Vandervort b'le i gael gafael ynddo, ac ymgrogodd rhag ofn ei feistr. Priododd Richard Gibson un Anne Shepherd, corynes yn llŷs Henrietta Maria. Y brenin ei hun roddodd y briodferch wrth yr allor, a rhoddodd y frenines iddi anrheg o fodrwy adamant. Cyfansoddwyd hefyd bennillion difyr ar yr achlysur gan Waller, y llŷs-brydydd. Trôdd y briodas allan yn un ddedwydd, a chawsant lawer o blant, a thyfodd pump o honynt i faintioli cyffredin.

Y coryn Jeffrey Hudson oedd hefyd yn un tra nodedig yn ei ddydd. Ganwyd ef yn Oakham, yn Rutlandshire. Yr oedd ei rieni yn ddynion o gyflawn faintioli. Yr unig un hynod yn y teulu oedd Jeffrey. Swydd ei dad oedd gofalu am deirw baeddu y Duke o Buckingham. Rhoddwyd yr un bach i'r Duces pan oddeutu naw mlwydd oed, a braidd yn droedfedd a hanner o hŷd. Yn fuan ar ol priodas Charles I., ymwelodd y brenin a'i briod â Burleigh House. Pan yn ciniawa yno un diwrnod, pwy neidiodd allan o boten oer oedd ar y ford, ond y coryn Jeffrey Hudson, er mawr ddifyrwch y gwyddfodolion. Neidiodd Hudson allan o'r boten yn ddisymwth, yn arfog, gan fygwth y boneddigesau â'i gleddyf bach. Mae darlun o'r olygfa ddifyr hòno ar glawr y dydd heddyw. Y pryd hwn, gwnaeth y Duces anrheg o'r coryn i Henrietta Maria, yr

hon oedd yn foddus iawn i'w gael, ac a'i cadwodd flynyddau lawer yn gòryn iddi ei hunan. Cwympai Jeffrey, druan, i maes yn wastad â'r gwasanaethddynion, fynychaf â'r porthor, yr hwn oedd gymaint o gawr ag oedd Jeffrey o goryn. Dododd y porthor ef fwy nag unwaith yn ei boced. Mae llawer o ystorïau am dano ar glawr, ac ymddengys i fywyd pwysig iawn gael ei dreulio gan un mor fychan. Bu unwaith bron boddi mewn cawg wrth olchi ei wyneb a'i ddwylaw. Cafodd ei ddanfon yn 1630 ar neges teuluol dros Henrietta Maria, at Mari o Medicis, yr hon a'i danfonodd adref yn llwythog o anrhegion i ferch ei feistres, ond ar y ffordd cafodd ei gymeryd yn garcharor yn Dunkirk, a'i yspeilio gan fôr-ladron. Dywedir i Jeffrey unwaith ymladd duel â Mr. Crofts, yr hwn a ddaeth i'r ymgyrchfa wedi ei arfogi â chwistrell, gan ystyried un mor fychan islaw sylw, ond mae yn debyg nad oedd Jeffrey yn foddlon i ymddarostwng i'r fath sarhad. Mynai ymladd duel, a saethodd Mr. Crofts yn y fan. Tynwyd ei lun amrywiol o weithiau gan Mytens a Vandyke, ac y mae ei glôs, ei *waistcoat*, a'i hosanau i'w gweled yn yr Ashmolean Museum, yn Rhydychain.

Matthew Buckinger oedd goryn arall a ddarllenasom am dano. Nid oedd gan hwn na dwylaw, traed, cluniau, na morddwydydd, ond tyfai allan o'i ysgwyddau ddau gonyn, nid annhebyg i esgyll pysgodyn, â'r rhai y gallasai ysgrifenu, tynu lluniau, chwareu disiau, canu y telgorn, dodi edef mewn nodwydd, yn nghyd â llawer o bethau eraill a barai syndod i edrychwyr.

Joseph Boruwlaski, a elwid yn gyffredin Count Boruwlaski, oedd yn hynod am ffraethder ei atebion. Pan oedd oddeutu pedair-ar-ddeg oed, ac wyth modfedd ar hugain o hyd, aeth i weled yr ymherodres fawr Maria Theresa. Cymerodd yr ymherodres ef ar ei harffed, ac a ofynodd beth oedd yr olygfa fwyaf ryfeddol a welodd yn Vienna; atebodd, "Gweled dyn mor fach ar arffed ymherodres mor fawr." Yr oedd gan yr ymherodres fodrwy adamant ardderchog ar fŷs ei llaw, â'r hon yr ymaflai yn llaw Boruwlaski. Yn ei weled yn syllu mewn rhyfeddod ar y gem, gofynodd iddo sut yr oedd yn ei leicio; atebodd yntau yn foneddigaidd mai nid ar y fodrwy yr oedd yn edrych, ond ar ei llaw ardderchog, yr hon a chwennychai gusanu. Caniatäodd yr ymherodres iddo yr anrhydedd; a chan gymeryd modrwy fechan oddiar fŷs Maria Antoinette, dododd hi ar fŷs y còryn ar ei harffed.

Y nododig Bébé, enw gwirioneddol yr hwn oedd Nicholas Feny, neu Ferry, coryn Stanislaus Lesckzinski, brenin oedranus diorseddedig Poland, a anwyd yn Plaisnes yn y Vosges. Yr oedd mor hynod o fach fel y cariwyd ef ar ddysgl i gael ei fedyddio. Pan yn ddwy flwydd oed nid oedd ei esgidiau ond modfedd a hanner. Ni bu Bébé yn hirhoedlog. Ymddangosodd arwyddion o fethiant ynddo yn gynnar. Pan yn dair-ar-hugain cafodd ei gymeryd yn glaf mewn twymyn, yr hon a osododd derfyn buan ar ei fywyd. Bu farw Gorphenaf 9fed, 1764.

Ganwyd coryn a elwid Calvin Philips yn Bridgewater, yn nhalaeth Massachusetts, yn 1791, yr hwn ni phwysai yn llawn ddau bownd. Nid oedd ei forddwyd yn ffurfach na bŷs bawd gwr.

David Richie, o Tweed-dale, oedd y cymeriad gwirioneddol ar yr hwn y sylfaenodd Syr Walter Scott ei ffug-chwedl, "Y Coryn Du." Gallasai David sefyll yn unionsyth yn nrws ei dŷ, yr hwn oedd yn dair troedfedd a hanner o uwchder.

Y mwyaf nodedig o gorynod diweddar, Charles S. Stratton, adnabyddus wrth yr enw General Tom Thumb, a anwyd yn Bridgeport, Connecticut, ar yr unfed ar ddeg o Ionawr, 1832. Cafodd ei arddangos yn gyntaf gan Barnum yn ei Greirfa yn New York, a gludwyd ar ol hyny i Loegr, lle y cafodd ei ddangos o flaen y Frenhines amryw weithiau, Anrhegodd ei Mawrhydi ef â chofiedydd o gragen llymarch, yn yr hon yr oedd rhudd-emau wedi eu gosod ar lun V.R. Ar dro arall derbyniodd y General oddiar yr un llaw Frenhinol *case* pwyntel o aur. Rhodda Mr. Barnum hanes difyr o'i orchwylion ei hun a Tom Thumb yn Lloegr. Darfu i'r General actio mewn chwarae a ysgrifenodd Albert Smith, a elwid "Hop o' my Thumb, yn y Lyceum, a llawer o fanau eraill, er mawr ddigrifwch y gwyddfodolion. Aeth Barnum a'r General bach oddi yma i Ffrainc, lle y cawsant dderbyniad croesawus gan Louis Philippe, y Frenhines, a'r Dywysoges Adelaide.

Y coryn cyhoeddus diweddaf a arddangoswyd yma oedd Chung. Yr oedd gauddo yn cyd-deithio âg ef gydymaith cawraidd a serchus a elwid Chang, yn nghyd â'i wraig, mor serchus ag yntau. Yr oedd y cawr yn llawer mwy nodedig na'r coryn, ac yn cael derbyniad mwy croesawus yn mhob man. Yn edrychiad y coryn hwn yr oedd rhywbeth yn atgas a gwrthun, fel na chwennychai nemawr ei weled yr ail-waith; ond am y cawr, yr oedd pawb yn ei hoffi.

Dim rhagor ar y pwnc hwn; a dichon na ddarllenaist ti gymaint am gorynod erioed o'r blaen.

---

## DARLLENYDDIAETH.

Y MAE darllenyddiaeth, neu y gelfyddyd o ddarllen, yn beth ag y telir llawer rhy fach o sylw iddo yn ein plith; ac, fel canlyniad, y mae rhifedi o ddarllenwyr da yn brin iawn. Y mae pawb yn hoffi clywed darllen da, er nad ydynt, o bosibl, yn ceisio cyrhaedd rhagoriaeth yn hyny eu hunain. Os mynir darllen yn dda, y mae yn gofyn gwneuthur ymdrech at hyny. Y mae yn rhaid wrth ofal a manyldra. Y mae geiriau, fel arwyddlun neu gysgod o feddwl, yn meddu dau brif nodwedd; ac ar amgyffrediad cywir o'r rhai hyn y mae eu defnyddioldeb yn dibynu yn hollol—*swn* a *synwyr*. A pha beth yw darllen? Trosglwyddiad o'r meddwl sydd yn gorwedd yn yr arwyddlun neu'r cysgod i'r cyfryw *swn* neu *seiniau* ag a fyddo yn cario *synwyr*, neu feddwl cywir y meddyliwr i'r personau hyny ag ydynt i dderbyn yr argraff oddiwrth ei feddyliau. Cynnwysir mewn darllen lawer o bethau o bwys neilldual. Nodwn ychydig o honynt.

Os ydys am i eraill glywed, dylid gofalu darllen yn ddigon uchel i'r perwyl—nid mwngial, nid gwaeddi; dylid ymgadw oddiwrth eithafion o bob tu. Dylid darllen yn groyw, os ydym am gael ein deall, nid bwyta hanner y geiriau, a'u taflu allan blith-draphlith yn bendramwnwgl, ond rhoddi i bob gair a phob llythyren ei llawn a'i phriodol sain. Er mwyn hyny, darllener yn ddigon araf, ac eto heb fod yn rhy araf—heb fod yn rhy debyg i'r falwoden ar yr un tu, ac i fwleten o *gannon* ar y tu arall. Cofier hefyd fod gwahaniaeth rhwng darllen a chanu—nid darllen yw canu, nid canu yw darllen; felly, os canu yr ydys, caner; os darllen, darllener. Arfer gan rai yw cyflcu eu darlleniad ar ryw dôn,

ac y mae y dôn yr un, fynychaf, beth bynag fyddo y darlleniad; ac os na fydd y geiriau yn ffitio, dernir hwy i ateb y pwrpas. Pe ceisid deall ystyr ac yspryd pob gair a phob ymadrodd, gellid tybied nad felly fyddai. Pan fyddo dyn yn siarad, y mae fynychaf yn gwneuthur hyny mewn dull naturiol. Fe *ddylid* darllen yn naturiol hefyd. Pan yn siarad, nid ydym byth yn gwneuthur camsyniad wrth godi na gostwng y llais; ond pan yn darllen, naw wfft i ni! Pwysleisiwn, ond gofalwn bob amser fod y pwyslais yn mhob man ond y man iawn. Cymerwn ein hanadl—y mae yn rhaid i ni anadlu hyd yn nod pan fyddom yn darllen, ond fynychaf cymerwn ofal peidio anadlu lle y dylem. Dangoswn na wyddom ddim am ddyben yr attalnodau—y *stops*. Mae'r oll yn cael ei wneyd megys wrth beiriant—yn ddiraid ac yn ddifywyd. Cyn darllen yn dda, gan hyny, y mae yn rhaid wrth ragbarotöad, er mwyn deall a *theimlo* yr hyn yr ydys yn olygu ei ddarllen; ac heb ragbarotöad y mae yn anmhosibl gwneyd hyny. Clywir yn fynych rai yn darllen heb ddangos eu bod yn meddu na deall na theimlad o'r hyn a ddarllenir ganddynt. Os *ding-dong* fydd y dôn a ddewisir ganddynt, *ding-dong* fydd y darlleniad o'i ddechreu i'w ddiwedd; os *dong-ding*, bwrir yn y blaen â'r *dong-ding* o hyd; weithiau, er mwyn ychydig o gyfnewidiad, ceir tôn mwy bywiog *ding-ding-dong*. Onid ydyw yn wrthun clywed dynion yn darllen fel pe byddent beiriannau difywyd, gan wneuthur llofruddiaeth ar bob peth a ddêl yn agos atynt? Er enghraifft,—

Mawr *yw* dy *ddeddf* - au *gan* bob *doeth*,
Ding-dong, ding-dong, ding-dong, ding-dong,
Mil *yn* fwy *gwerth* - fawr *nag* aur *coeth*, &c.

Yn awr, pe gwnai dyn ddefnyddio ychydig o'i ddeall, ni byddai un anhawsdra iddo ddarllen y llinellau uchod yn gywir, a phwysleisio ar y geiriau sydd yn naturiol yn gofyn eu pwysleisio. Dymunwn yn neilldu alw sylw dynion icuainc at y pwysigrwydd o ddarllen yn dda, a phob amser i ddewis yn mlaenllaw, a rhagbarotoi yr hyn a fwriadant ei ddarllen yn gyhoeddus. Fel hyny yn unig y gallant weled y geiriau dyeithr a'r ymadroddion afrwydd a ddichon fod yn y darn dewisedig. Ni chlywais erioed sôn eto, ac yr wyf wedi clywed llawer yn nhymhor fy oes, am neb yn darllen yn rhy dda, am neb yn gwneuthur meddwl yr awdwr yn rhy eglur; ond clywais lawer am ysglyfeneidd-dra darlleniad Mr. Hwn-a-hwn, a'r Parch. Hwn-a-hwnacw, a diffyg chwaeth Mr. Un-arall yn newisiad yr hyn a ddarllenodd. Ymddengys i mi fod rhai Undodiaid nad ydynt bob amser yn cofio fod gwahaniaeth gwerth a gwahaniaeth pwysigrwydd yn perthyn i wahanol ranau y Beibl; fod rhai rhanau o'r Hen Destament yn annheilwng o oes Gristionogol, a rhai rhanau yn anweddus i'w darllen mewn cynulleidfa gymysg. Clywais lawer am rai yn llysenwi geiriau,—Mab y dîn, Isríel, Cryst, neu Criist; yr oedd rhyw *hwn*, y *gwir* neu *gwŷr*, yn lle "y gŵyr a wneir yn uniawn," &c. Gydag ychydig ymdrech, ac fe ddylai dynion cyhoeddus wneuthur yr ymdrech, ni byddai yn anhawdd i neb ddarllen yn dda ddarnau cyffredin. Y mae rhai darnau, mae'n wir, yn anhawdd iawn, ac yn gofyn meistr i'w darllen yn dda. Yr wyf yn cofio clywed hen ŵr, pan oeddwn yn icuanc, (mae llawer blwyddyn oddiar hyny,) yn dyweyd fod dynion icuainc, fynychaf, yn dewis i'w darllen y rhanau mwyaf anhawdd. Tebyg mai trwy ddygwyddiad y mae hyny, ac nid trwy fwriad, os yw yn bod.

Pennod anhawdd iawn i'w darllen, ond hynod ddewisol gan ddynion ieuainc, yw Ioan xiv. Anfynych iawn y clywn y geiriau olaf, "Codwch, awn oddi yma," yn cael eu gosod allan yn briodol; eithr darllenir hwy fel pe na byddai un cysylltiad rhyngddynt â'r geiriau blaenorol. Os na fyddir yn deall yr hyn a ddarllenir, ni ellir, wrth gwrs, ddysgwyl darlleniad cywir. Ond a ydyw yn briodol darllen er addysg ac adeiladaeth torf o ddynion (dyna ddyben darllen cyhoeddus, onitê?) yr hyn nad yw y darllenydd ei hun yn ei ddeall? Sylwer yn fanwl ar gysylltiad a pherthynas y geiriau yn yr adnodau canlynol (Salm cxlv. 5—9.):—

> Ardderchogrwydd gogoniant dy fawredd,
> A'th bethau rhyfedd, a *draethaf*.
> Traethant *hwy* gadernid dy weithredoedd ofnadwy:
> Mynegaf *finau* dy fawredd.
> Coffadwriaeth amlder dy ddaioni a *draethant*;
> A'th gyfiawnder a *ddatganant*:
> "Graslawn a thrugarog yw yr Arglwydd;
> "Hwyrfrydig i ddig, a mawr ei drugaredd.
> "Daionus yw yr Arglwydd i bawb:
> "A'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd."
> Dy holl weithredoedd a'th *glodforant*, &c.

Un enghraifft arall, ac yna terfynwn. Nid ydym nemawr crioed wedi clywed Salm ciii. 17, 18, yn cael ei darllen yn gywir. Pe gofalai dynion ddal yn fwy ar synwyr, byddai bron yn anmhosibl iddynt lai na darllen yr adnodau yma yn iawn. Ond darllenant adnodau yn dra chyffelyb i'r modd y darllenant linellau o farddoniaeth. Wrth gwrs, gorphwysir ar ddiwedd llinell o farddoniaeth yn wastad, pa un a fyddo y synwyr wedi ei orphen ai peidio. Beth waeth ganddynt hwy am synwyr? nid ydynt hwy yn cael eu blino gan ormod synwyr. Wrth yr un rheol, gorphwysant a gostegant y llais ar ddiwedd pob adnod; ac felly, yn fynych, collant y synwyr. Adnod 15,—

> Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn,
> Megys blodeuyn y maes, felly y blodeua efe;
> Canys y gwynt a â drosto, ac ni bydd mwy o hono;
> A'i le nid edwyn ddim o hono ef mwy.
> Ond *trugaredd* yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb,
> Hyd dragwyddoldeb, *ar y rhai* a'u hofnant Ef;
> A'i *gyfiawnder* i blant eu plant,
> *I'r sawl* a gadwant ei gyfammod Ef,
> *Ac a* gofiant ei orchymynion i'w gwneuthur.

> "Llunier i gall hanner gair,
> Lle daw anghall a dengair."

VERBUM SAP.

O.Y.—Enghraifft hynod o leoliad geiriau a geir yn yr Ephesiaid. Yn pennod iii. 1, cawn y geiriau "A myfi Paul," fel enwedigaethydd (*nominative*), ond yn mha le y mae'r gweithredair (*verb*)? ar ol hir a manwl chwilio i lawr ac i fynu, i fynu ac i lawr, cawn ef (ar ol *repeated nominative*) yn pennod iv. 1, "*Deisyf* gan hyny arnoch yr *wyf fi*, y carcharor yn yr Arglwydd, *ar rodio o honoch*, &c."

## DAEARYDDIAETH PALESTINA.

### Pennod xi.—Parhad Trefydd Galilea.

7. *Nazareth.*—Mae'r pentref hwn yn gorwedd ar gŵr gogleddol gwastadedd Esdraelon, ac o du y dê i bentref Cana. Enw presenol y lle yw Nasireh. Mae wedi cael ei adeiladu ar lechwedd, ac yn cael ei amgylchynu o bob tu ond un gan fryniau uchel; ond yn y man hwnw y mae'r pentref yn gwynebu ar ddyffryn bychan islaw iddo, oddeutu dwy filldir a hanner o hŷd. Dysgir ni yn hanes yr Iachawdwr ei fod ef unwaith wedi cael ei gymeryd "hyd ar ael y bryn yr hwn yr oedd eu dinas wedi ei hadeiladu arno, ar fedr ei fwrw yn bendramwnwgl i lawr," Luc iv. 29. Mae traddodiad yn cyfeirio y teithiwr at glogwyn ag sydd yn gwynebu tua gwastadedd Jezreel, i'r de-ddwyrain o Nazareth, fel y lle y bwriadasid cyflawni y weithred. Yma y preswyliasai yr Iesu yn gyffredin, cyn iddo ddechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus; felly y gelwid ef Iesu o Nazareth.

Tref fechan yw Nazareth yn awr, yn cynnwys rhyw 3000 o drigolion, y rhai ydynt Gristionogion, yn perthyn naill ai i eglwys Groeg neu Rufain, yn nghydag ychydig Fahometaniaid. Mae gan y pleidiau hyn adeiladau gwych i addoli ynddynt. Dywedir fod yr Eglwys Ladinaidd wedi cael ei hadeiladu ar y *spot* lle derbyniodd Mair yr hyspysiaeth oddi wrth yr angel am enedigaeth yr Iachawdwr. Nid yn mhell o'r dref y mae ffynon Nazareth, o ba le yr ydys yn awr yn cael dŵr. Gelwir hi "Ffynon Mair y Forwyn," oblegid meddylid fod Mair yn arfer ymofyn dŵr o honi. Dangosir yn mharthau ereill o'r dref weithdy Joseph, yr hwn sydd wedi cael ei droi yn gapel; y synagog lle y pregethasai'r Iesu, ond yn awr yn eglwys; a bwrdd careg, ar yr hwn, meddai'r mynachod, y bwytaodd ein Harglwydd gyda'i ddysgyblion cyn a chwedi ei adgyfodiad.

8. *Nain*, yn awr Nein, sydd yn gorwedd oddeutu saith milldir i'r de-ddwyrain o Nazareth. Pentref bychan diolwg arno yw hwn, gydag ychydig iawn o boblogaeth. Ystyr y gair yw *hardd*, oddiwrth ei sefyllfa. Yma y cyfododd yr Iesu i fywyd fab y weddw hòno, yr hwn oedd yn cael ei gario allan yn farw drwy byrth y ddinas, Luc vii. 12.

9. *Shunem* oedd ddinas ar gyffiniau llwyth Issachar, oddeutu pum milldir i'r dê o Hermon. Meddylir mai y pentref bychan bawlyd a elwir Solam, ag sydd yn gorwedd ar y pen eithaf gorllewinol mynydd Hermon, yw Shunem yr Ysgrythyrau. Yma cafodd y prophwyd Eliseus dderbyniad cynhes gan y Sunamees, mab yr hon a ddygodd efe i fywyd; a gerllaw y ddinas hon hefyd y gwersyllodd llu y Philistiaid cyn brwydr ddiweddaf Saul, pan ar fynyddoedd Gilboa y cwympodd y cedyrn yn nghanol y frwydr, ac yr archollwyd ardderchogrwydd Israel, 2 Sam. i. 19.

10. *Bethshan* oedd yn perthyn i hanner llwyth Manasseh, ond yr oedd tu fewn i gyffiniau Issachar, oddeutu dwy filldir oddiwrth yr Iorddonen, ar y lan orllewinol. Gelwid y lle hwn gynt yn Scythopolis, dinas y Scythiaid, y rhai a ddaethant yn un o'u rhuthriadau allan o'r Aipht hyd y ddinas hon, lle y trigodd rhyw nifer o honynt.

*Beisan*, tref fechan dlawd yn nyffryn Jezreel ydyw'r fan a ddangosir lle safai Bethshan yr Ysgrythyrau. Cesglir oddiwrth yr adfeilion a geir ar lan yr afon a rêd drwy'r dref fod Bethshan wedi bod yn lle mawr un amser. Gwedi brwydr Gilboa, hoeliodd y Philistiaid gyrff Saul a'i dri mab ar fur y ddinas hon. "Ond pan glywodd trigolion Jabesh-Gilead

yr hyn a wnaethai y Philistiaid i Saul, yr holl wyr nerthol a gyfodasant, ac a gerddasant ar hyd y nos, ac a ddygasant ymaith gorff Saul a chyrff ei feibion ef oddiar fur Bethshan, ac a ddaethant i Jabes, ac a'u llosgasant hwynt yno," 1 Sam. xxxi. 11, 12.

11. *Acre.* Gelwid y lle hwn gynt Accho, yn awr Akka. Y mae yn gorwedd ar lan y môr, oddeutu 27 milldir i'r dê o Tyrus. Cafodd y dref ei diwygio a'i helaethu gan Ptolemy I., brenin yr Aipht, ac am hyny galwasid hi Ptolemais. Adnabyddir hi yn awr yn gyffredin wrth yr enw St. Jean de Acre, oblegid iddi gael ei rhoi gan Richard I., brenin Lloegr, i farchogion St. John o Jerusalem. Cafodd y dref ei gwarchae amrywiol o weithiau yn amser Rhyfeloedd y Groes, a hi oedd y lle diweddaf fu yn meddiant y Cristionogion yn Palestina. Daeth Acre yn enwog mewn amser diweddar. Bu yn faes rhyfel rhwng y Saeson a'r Ffrancod, pan y darfu i Syr Sidney Smith, yn cael ei gynorthwyo gan yr enwog Pasha Djezzar, yru ar ffô y Ffrancod dan lywyddiaeth Napoleon Buonaparte. Dywedir mai allwedd Galilea, a'r oll o Palestina, yw Acre. Hwn ydyw'r porthladd gorcu ar y *coast*, ac y mae wedi cael ei amgaeru. Dywedir fod Napoleon yn sefyll unwaith ar fryn gerllaw, ac yn pwyntio tuag Acre, a dywedai wrth Murat "fod tynged y Dwyrain yn ymddibynu ar y dref fechan acw—Caercystenyn, India, ymherodraeth newydd yn y Dwyrain, a chyfnewidiad yn ngwyneb yr holl fyd!" "Wyth gwaith yr arweiniodd ei filwyr dewr i'r ymosodiad; un waith ar ddeg y safodd yn erbyn rhuthriadau ofnadwy y Mameluciaid. Daeth Syr Sidney Smith i gynorthwy y gwarchaëedig, a chollodd y Ffrancod eu swyddogion dewraf, yn nghyda nifer fawr o filwyr, cyrff pa rai a adawsid i fraenu yn yr haul. Felly, wrth furiau Acre y trechwyd yr hwn ag oedd i ddymchwelyd bron bob gorsedd yn Ewrop."

Gwarchaewyd y dref yn hir gan Ibrahim Pasha, pryd y taflwyd iddi 35,000 o dân-belenau, ac y dinystriwyd yr adeiladau yn hollol. Ail-adeiladwyd y lle wedi hyny drwy ei orchymyn ef, gwnaethpwyd ei hamddiffynfeydd o'r fath, fel y meddylid ei bod bron yn anorchfygol. Trwy fod Ibrahim yn myned yn mlaen mor llwyddianus, cafodd yr hen Sultan o Twrci ofn y gallasai ddymchwelyd ei orsedd ef. Daeth allan â'i fyddinoedd yn ei erbyn, ac ymladdwyd brwydr, pryd y gorchfygodd Ibrahim a'i Aifftiaid y Tyrciaid. Gwedi yr amgylchiad hwn, tybiodd galluoedd Ewrop yn ddoeth i gymeryd yr achos dan sylw. Ac ar y 3ydd o Tachwedd, 1840, tân-belenwyd Akka am amryw oriau gan lyngesoedd Lloegr a Thwrci, pryd y taniodd yr ystorfa bylor, ac y dinystriwyd y dref yn hollol.

Mae'r tai a adeiladwyd ar ol hyn wedi cael eu gwneuthur o gerig, a'r heolydd yn gulion a brwnt. Golwg wael sydd ar y trigolion, y rhai ydynt yn gymnwysedig o Gristionogion, Tyrciaid, Arabiaid, ac Iuddewon. Bychan, ac heb fod yn ddwfn, yw'r porthladd yn awr, ond eto y gorcu ar y *coast*. Cotwm yw y prif nwyf ag sydd yn cael ei gludo allan.

## CYFARFOD CHWARTEROL Y NADOLIG.

Cynaliwyd y cyfarfod uchod ar y 29ain a'r 30ain o Ragfyr, yn Hên Dŷ Cwrdd Aberdâr. Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fercher, y 29ain, gan Mr. D. Davies, myfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin, a phregethwyd gan Mr. Davies, Alltyplacca, a'r Proffessor Evans, y blaenaf oddiwrth Iago i. 25; a'r olaf oddiwrth Ioan xvii. 3.

Boreu dydd Iau, aeth Mr. Evans, Gellionen, trwy y rhanau defosiynol. a phreg ethodd y Parch. John Joseph George, Aberdâr, yn absenoldeb Mr. Higginson Abertawe, oddiwrth Heb. v. 9. Canlynwyd ef gan y Parch. W. Rees, o Rydygwin a Chiliau, yr hwn a draddododd y bregeth apwyntiedig. Rhoddodd foddlonrwydd cyffredinol. Clywsom rai o wahanol enwadau crefyddol yn rhoddi canmoliaeth uchel iawn ; ac, yn wir, nid ydym yn cofio erioed ei glywed mor hapus—mewn mater, dull, trefn, a thraddodiad. Yr oedd wedi ymdaflu iddi gorff ac enaid, fel yr oedd y bregeth yn fyw, a'r gwrandawyr yn fyw yn gwrando. Nid ydym yn teimlo y gallwn wneuthur cyfiawnder â'r bregeth, ac eto nis gallwn ymatal heb roi crynodeb byr o honi. Fe wêl y darllenydd y testun wrth ymaflyd yn ei Feibl, a throi at Marc xvi. 15. Yr oedd ganddo yr *orthodox* triphen. Dangosodd—

I. Fod yn anmhosibl cael amgyffrediad cywir o nerth yr efengyl heb wybodaeth fanwl o gyflwr ac amgylchiadau yr amser y pregethwyd hi gyntaf. Rhoddodd fraslun, gan hyny, o'r hyn ydoedd Iuddewaeth a Phaganiaeth yr amser hwnw, a dangosodd drwy hyny nad oedd yn y naill na'r llall yr elfenau hyny a allent ddiwallu anghenion dynoliaeth. Cul a chyfyng oedd pob un o honynt. Dyna ydoedd Iuddewaeth; nid oedd addoliad yr Iuddewon ond addoliad eu cenedl hwy, nid oedd i ereill ran na chyfran yn briodol ynddi. Eu Duw hwy, un lleol oedd, ac felly lleol hefyd oedd yr addoliad. Messia dysgwyliedig ganddynt hwy, gwaredydd tymhorol oedd, gwaredydd eu cenedl hwy. Addoliad Paganaidd, aml-dduwiol oedd ; a'r gwasanaeth crefyddol, seremonïol yn hytrach na moesol oedd. Yr oedd eu duwiau yn lluosog, a'u defodau a'u seremonïau yr un peth. Pan ymwelid â hwy gan blâ, ffrwyth eu hymresymiad oedd fod rhyw dduw wedi digio, ac felly yn gofyn ei dangnofi; nid oedd y meddwl byth yn ymgynyg iddynt fod angen gwellâu eu moesau arnynt.

Nid ffrwyth y rhai hyn, nid cynyrchiad cymdeithas, yw Crist'nogaeth ; y mae ei hegwyddorion yn groes i egwyddorion yr oes. Nid tyfiant graddol chwaith ydoedd, ond pregethwyd hi yn ei pherffeithrwydd ar y cyntaf gan Grist. Yna rhoddwyd adolygiad byr o grefydd Crist.

II. Rhoddwyd braslun o gyflwr a chymeriad apostolion Crist. Sylwyd eu bod yn dlawd yn eu hamgylchiadau, yn anllythyrenog, ac felly yn meddu dim dylanwad bydol. Yr oedd amgylchiadau allanol megys yn cyd-dueddu i beri iddynt ymwrthod â Christ. Coleddent yr un syniadau, a meddent yr un teimladau â'u cydoeswyr. Nid ymddangosai fod ganddynt un dewrder na gwrolder neillduol, na dim doethineb mwy nag ereill. Hyd farwolaeth ac adgyfodiad Crist, nid oedd dim argoel eu bod yn rhagori mewn dim ar ereill o'u cyfoedion. Yna eglurwyd yr achosion a arweiniasant at y cyfnewidiad mawr yn eu cymeriad. Yr hyn a barodd eu bod o hyny allan yn ddewrion a gwrol, yn weithwyr ewyllysgar, a'u calonau yn eu gwaith. Teimlent wirionedd yr hyn a bregethwyd gan Grist. Yna nodwyd yr achosion a barasant y cyfnewidiad yn nghymeriad Paul, yn nghyd â'r canlyniadau o hyny.

III. Sylwyd ar y prif bethau a bregethid gan apostolion Crist. (1.) Duw—yn un, yn gyfiawn, yn drugarog, yn faddeugar, yn Dad cyffredinol, yn Dad sydd yn unig wrthddrych addoliad crefyddol, yn Dad sydd i'w addoli mewn ysbryd a gwirionedd, yn hir-ymarhous, yn llawn cariad ac ewyllys da, ar gyffelybrwydd y tad yn nammeg y mab afradlon. (2.) Dyledswyddau dyn—ato ei hun, at ei gyd-ddynion, ac at ei Dduw. Eglurwyd trwy gyfeiriadau at ymddiddanion a dammegion Crist. Dangoswyd pwy fydd, a phwy na fydd yn dderbyniol ar ddydd y farn ; fod angen *cadw* y gorchymynion er rhyngu bodd Duw ; nad yw dynion yn ngwinllan Duw i fod yn segur ; y dylai tlawd a chyfoethog gydweithio, ac y dylai cariad a brawdgarwch, parch ac ewyllys da, gydfodoli rhyngddynt. Gorphenodd ei bregeth trwy ddangos fod yr egwyddorion yma yn gymhwys hefyd at ein hamser a'n hamgylchiadau ni ein hunain.

Pwnc y gynadledd oedd "Prophwydoliaeth," a llefarwyd arno gan T. Thomas, W. Thomas, ac Isaac T. Williams, y rhai oeddynt i raddau helaeth yn cytuno â'u gilydd. Canlynwyd hwy gan Proff. Evans a W. Williams, (Carw Coch). Yr oedd anghydwelediad mawr rhwng Mr. Evans a'r tri blaenaf. Cawsom brawf hefyd fod ein henwad ni yn rhoddi perffaith ryddid i bawb ffurfio eu barn, ac i draethu eu barn ; ac onid felly y dylai fod ? "Rhydd i bob meddwl ei farn, ac i bob barn ei llafar." Y peth mawr ac angenrheidiol yw, cadw undeb yr ysbryd yn nghwlwm tangnefedd. Terfynwyd cyfarfod y boreu trwy weddi gan ein hen gyfaill parchedig Mr. John Lloyd, Nottais. Yn y prydnawn, wedi ciniaw, cafwyd cynadledd arall. Darllenwyd papyr gan Mr. W. Thomas, ar "Ddysgyblaeth Eglwysig;" ac wedi ychydig ymddiddan gan ereill, rhoddwyd cais unfrydol y gwyddfodolion i Mr. Thomas anfon y

papyr i'w argraffu yn YR YMOFYNYDD, fel y byddo cyfleusdra i roddi ystyriaeth mwy manwl iddo. Yn yr hwyr, dechreuwyd gan y Proff. Evans, a thraddodwyd dwy bregeth ragorol gan Mr. W. Thomas a Mr. T. Thomas.

Yr oedd y tywydd yn bur anffafriol, ond, ar y cyfan, cafwyd cynulliadau gweddol iawn, a gwrandawiad astud. Cynelir cyfarfod y Pasg yn y Cwmwr-du, y Parch. Mr. Lloyd, Cwmbach, i draddodi y bregeth.

## TEA PARTY.

Anrhegodd ychydig o foneddigesau perthynol i eglwys Cae'ronen blant yr Ysgol Sabbothol â digon o dê a bara brith, yn y Wern Cottage, prydnawn y 24ain o'r mis diweddaf, ac y mae yn fwy na thebyg iddynt fwynhau eu hunain yn bur dda, a chael eu llwyr foddloni; a'r achos mwyaf neillduol sydd genym dros hyny yw, eu bod wedi ymgynull yn gryno ac amserol i gapel Cae'ronen i gynal eu cyfarfod llenyddol am naw o'r gloch boreu dranoeth. Ni chaniata eich gofod i osod y manylion i mewn, am hyny ni roddwn ond crynodeb byr o hono.

Wedi apwyntio y gweinidog yn gadeirydd, ac iddo anerch y gwyddfodolion lluosog, galwodd am y cyntaf ar y *programme*, sef tôn, "O, am dipyn o hwyl," gan frawd a chwaer, ac mor hwylus y canasant, fel y parhaodd yr hwyl yn ddidor hyd ddiwedd y cyfarfod. Yr ydym yn sicr na chafodd un cadeirydd erioed lai o waith, na gwaith mwy hwylus, nag a gafwyd ar yr achlysur hwn.

Ond, i gadw at ein haddewid o beidio manylu. Aroddodd oddeutu hanner cant o'r ysgolheigion wahanol destunau yn rhagorol o dda, ïe, mor dda, fel y byddai yn llesiol iawn i lawer ag sydd yn tybied eu hunain yn *adroddwyr mawr*, i gymeryd gwers addysgiadol oddi wrthynt Bu amryw gystadleddau mewn canu ac adrodd, a rhoddwyd gwobrwyon i'r goreu a'r ail oreu yn mhob un o honynt.

Nid anmhriodol yw hysbysu fod boneddwr perthynol i'r gynulleidfa wedi ymddiried i Miss Jones, Wern Cottage, swm penodol o arian, i'w rhanu rhwng y rhai a ymddangosent yn fwyaf haeddianol, yr hyn a wnaed er *boddlonrwydd cyffredinol*, yr hyn nid yw yn aml yn cymeryd lle. Am yr ymdrechion ag y mae Miss Jones, a phob un ag sydd yn cydweithredu yn eich achos da, bydded eich bod chwi, ysgolheigion Sabbothol, yn wir ddiolchar, ac ar gynnydd yr eloch mewn pob gras a gwirionedd, medd CYFAILL.

## *AT OLYGYDD LLOYD'S WEEKLY LONDON NEWSPAPER.*

Syr,—Yr wyf yn gweled yn eich papyr gyfyngder teilwres dylawd, caniatewch i mi wneyd ychydig sylwadau, gan fy mod yn perthyn i'r un alwedigaeth. Yr wyf yn fenyw siengl, yn cynal fy hunan a fy mam oedranus trwy wneuthur trowseri gwrywod am y pris gwael o wyth a naw ceiniog y pâr, ac allan o hyny gorfydd arnaf ffeindio sidan, edef lin, a chotwm. Dylwn ddyweyd fy mod yn gweithio i deiliwr yn Bishopsgate Street, City, a phan yn cario adref y dillad cedwir ni yn fynych i weitio oriau. Yr wyf yn sicrhau i chwi, Syr, er fy mod yn gweithio un awr ar bymtheg y dydd, yr wyf fi a'm mam oedranus yn mron starfo. Er fy mod yn gwnio ddydd a nos yn ddiddiwedd, yr ydym, oherwydd y pris bach am ein gwaith, yn methu cael digon o fwyd. Yn awr, gofynaf, a oes rhyw un dyngarol a gymer i fynu ein hachos, fel y byddo i'r teilwresau sydd yn gweithio gartref gael mwy o bris am eu gwaith? Ydwyf, un o'r rhai anffortunus,

TEILWRES.

## CAN Y CRYS.

A bysedd eiddil, blin,
Ac emrynt llawn o gur,
Eisteddai gwraig mewn carpiog wisg,
Gan drin ei nodwydd ddur.
Pwyth—pwyth—pwyth,
A ddodai gyda brys,
Eto â llais dan drymaidd lwyth,
Hi ganai "Gân y Crys."

Gwaith—gwaith—gwaith,
Nes tôro gwawr y nen,
A gwaith—gwaith—gwaith
Nes t'wyno'r sêr uwch ben,
Gwell bod yn gaethes erch
Gyda Thyrciaid daear faith,
Lle nad oes enaid gan un ferch,
Na dilyn y fath waith.

Gwaith—gwaith—gwaith,
Y 'menydd ysgafnha,
Gwaith—gwaith—gwaith,
Yn ddwl y golwg wna.
Gwniad—cwysed—clwm,—
Am gyflog fechan geir,
Nes uwch bottymau cysgu'n drwm
A'r gwaith mewn breuddwyd wneir.

Chwi, fedd chwiorydd teg,
Mamau a gwragedd gwiw—
Cofiwch nad gwisgo lliain 'r ych,
Ond bywyd dynolryw !
Pwyth—pwyth—pwyth,
Mewn tlodi, newyn, chwŷs,
Ag edau ddwbl pwytho o hyd
Yr amdo fel y crŷs.

P'am sôn am angeu du ?
Drychiolaeth esgyrn dyn ?
Nid ofnaf wel'd ei echrys ddull
Mae'n debyg im' fy hun !
Mae'n debyg im' fy hun
Drwy f'ympryd dinacâd.
O ! Dduw ! paham mae bara'n ddrud,
A chnawd a gwaed mor rhad !

Gwaith—gwaith—gwaith,
Fy llafur sy'n parhau,
Pa beth yw'r gyflog ? gwely gwellt
Crystyn—a charpion brau.
Y tô drylliedig—y llawr noeth—
Y bwrdd, a'r gadair wan,
Y muriau gwag a'm cysgod gwael
Yw unig ddelw'r fan.

Gwaith—gwaith—gwaith,
Drwy oerfel Rhagfyr hir,
Gwaith—gwaith—gwaith,
Pan hîn fo'n frwd a chlir.
O dan fargodion ceir
Nythle gwenoliaid chwim
A hwy a'u cefnau heulog fydd
Yn dannod gwanwyn im'.

O na chawn arogl mwys
Y blodion tlysaf gaed,
Yr awyr uwch fy mhen,
A'r glaswellt dan fy nhraed.
O am un awr fel gynt
Y bum mewn melus nwyd,
Heb wybod fawr am rodfa drist
A gostiai bryd o fwyd.

O na chawn orig fach,
Yn ngodreu tyner nawn,
Nid SERCH na GOBAITH ddenai 'mryd,
Ond GOFID mynwes lawn.
Ychydig wylo wnai im' les,
Ond grym brwdaniaeth cur
A sych fy nagrau—rhag i ddafn
Rydu fy nodwydd ddur.

A bysedd eiddil blin,
Ac emrynt llawn o gur,
Eisteddai gwraig mewn carpiog wisg,
Gan drin ei nodwydd ddur :
Pwyth—pwyth—pwyth,
A ddodai gyda brys,
O ! na bai'r holl gyfoethog lwyth
Yn deall "Cân y Crŷs."

IORWERTH GLAN ALED.

## ENGLYNION I'R PEIRIANT MEDI.—BUDDUGOL.

UN mâd yw y Peiriant Medi ;—ond rhaid
Rhoi march i'w flaenori ;
Fe wna hwn ef yn heini
I gludo nerth drwy 'n gwlad ni.

Tyr yr ŷd i gyd gwed'yn ;—un o fil
A fêd yn fwy dillyn ;
Caiff ei ysdod glôd drwy'r glyn,
Er gwyllted fyddo'r gwelltyn.

Pan ymwêl â'r cae melyn,—e welir
Ei ol yn bur sydyn ;
Hoff arwr yw'r offeryn,
Gwna ychwaneg na deg dyn.

Pan fo gweithwyr, gwyr rhagoraf—ein bro,
Yn brin y cynhauaf,
Wele was o'r hwylusaf,
Cyfaill hoff i'r cloff a'r claf.

Fe rydd hwn fri haeddiannol—i enw
Ei luniwr dyngarol ;
Ar ei wedd fe welir ol
Gwr o ddawn go arddunol.

Chwi amaethwyr, gwyr âg arian,—ceisiwch
Ei bwreasu 'n fuan ;
A daw llwydd yn rhwydd i'ch rhan—
Llai o waith ga 'r llaw weithian.—DEWI HEFIN.

## MARWOLAETHAU.

Rhagfyr 14eg, yn 23 oed, o'r *hectic fever*, Gwenllian Davies, anwyl ferch James a Mary Davies, Clettwr, ger Talgareg, Sîr Aberteifi. Yr oedd yn ferch ieuanc lân a serchog, heddychol a charedig iawn. Er ys blynyddau yr oedd yn aelod hardd o eglwys Crist yn Nghapel-y-Fadfa, ac yn ofalus am gadw ei chydgynulliad. Yr oedd yn hoff o ddarllen, a chanddi gôf a deall da. Pregethwyd yn y tŷ ddydd ei hangladd gan y Parch W. Thomas, ar Matthew v. 4., ac ar ol ychydig o sylwadau wrth y drws, cychwynodd yr orymdaith luosog tuag eglwys blwyfol Llanwenog. Nid yn aml y gwelwyd y fath angladd mawr. Galarus iawn oedd y rhieni, y brodyr, a'r chwiorydd. Duw a'u hamgeleddo oll yn eu trallod blin, ac a roddo nerth iddynt i gredu fod eu hanwyl Wenllian yn gorphwys yn nghysgod deheulaw Duw, o gyrhaedd pob adfyd a phob poen.

Rhagfyr 18fed, yn 12 oed, o'r *croup*, John Charles, mab hynaf David a Hannah

Charles, Pencwarre, ger Llwynrhydowen. Dim ond am ryw wythnos y bu yn anhwylus. Yr oedd yn blentyn addfwyn a hawddgar tu hwnt i'r cyffredin, ufudd i'w rieni, hoff o ddarllen, ac aelod gobeithiol o eglwys ac o ysgol Sabbothol Llwynrhydowen. Yr oedd wedi bwriadu adrodd, fel arferol, yn y Cyfarfod Nadolig yn y Llwyn, ac adroddiad rhagorol ydoedd; ond angeu a'i gwnaeth ef yn fud, ac a'i symudodd ymaith cyn i'r cyfarfod hwnw ddyfod. Pregethwyd yn ei angladd gan weinidog y lle oddiwrth 2 Cor. v. 10, a chladdwyd ef yn mynwent y Llwyn. Gwyn fyd na fyddai ein plant oll yn derbyn y fath addysg dda â John Charles, ac yn rhodio mor obeithiol, ac o'r dechreu, fel efe, yn cael eu dwyn i fynu ar fronau eglwys Dduw. Caffed ei rieni galarus fodd i ymdawelu gerbron Duw yn eu dwfn alar.

Rhagfyr y 26ain, 1869, yn 62 mlwydd oed, Mr. Jonathan Davies, Felindre, ger Llanbedr, swydd Aberteifi, ar ol chwe mis o gystudd trwm, yr hwn a ddyoddefodd gyd âg amynedd ac ymostyngiad Cristionogol. Yr oedd yn ddyn, er nad heb ei ffaeleddau, eto, yn meddu ar lawer iawn o rinweddau dysglaer. Yr oedd yn ddyn caredig, haelionus, ac yn hoffi gwneuthur cymwynas. Caffai y gwan a'r tlawd ei gydymdeimlad a'i gynorthwy, ac achosion da ei gydweithrediad. Teimlir colled ar ei ol yn hir yn yr ardal; ac yn Nghae'ronen, lle yr oedd yn aelod gweithgar a defnyddiol, fe deimlir fod bwlch wedi ei adael yr hwn ni bydd yn hawdd ei lanw i fynu. Y dydd diweddaf o'r hen flwyddyn oedd dydd ei angladd; ie, pan oedd yr oriau olaf yn cyflym brysuro ymaith, yr oedd y parotoadau yn cael eu dwyn i ben i osod ein hen gyfaill anwyl i orphwys yn y tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw. Yn y tŷ, aethpwyd trwy y rhanau arweiniol gan y Parch. John Davies, a phregethwyd gan y Parch. D. Evans, yn rhagorol iawn oddiwrth y geiriau yma: "A'r byd sydd yn myned heibio, a'i chwant hefyd." (1 Ioan ii. 17.) Ac wrth y drws, cyn cychwyn, gweddiodd y Parch. T. Griffiths. Yr oedd tyrfa anarferol fawr wedi dyfod yn nghyd, (barnai rhai fod yno dros fil o ddynion,) ac yr oedd bron yr oll o'r gweinidogion cymydogaethol, o bob enwad, yn bresenol. Tua deuddeg o'r gloch, cychwynwyd yn orymdaith sobr tuag eglwys Cellan. Aethpwyd trwy y gwasanaeth yn yr eglwys gan y Parch. Mr. Jones, offeiriad y plwyf, ac ar lan y bedd gan y Parch. Mr. Thomas, mab Mr. Thomas, Pontfaen. Ffarwel gyfaill, yn iach i ti am ychydig enyd. Cawsom rybudd arall nad hir y byddwn ar dy ol. Gobeithiwn gael cwrdd ar fyrder ar fryniau dysglaer y wynfa hoff sydd fry. Rhodder i ni y fraint o gael teilyngu hyny. Bydded nawdd Iôr y nef a'i dangnef gyda'r galarwyr. Nerther hwy i ddal i fynu dan y brofedigaeth, a dyddaner hwy â'r dyddanwch sydd yn Nghrist. Ar ol priod mwyn a hoff, ar ol tad serchog ac anwyl, ni all y dagrau lai na rhedeg; ond oh, na fydded eu bod yn ddagrau diobaith. Ymgyfeiried yr enaid at Dduw, a chaffed nerth i ymdawelu a gorphwyso ar fraich ei dadoldeb Ef.

Rhagfyr yr 28ain, 1869, yn Nghastellnedd, Mr. William Edwards, yn 48 mlwydd oed. Gadawodd weddw a thair merch a mab i alaru ar ei ol. Dydd Llun canlynol, ymgynullodd tyrfa fawr, o bell ac agos, i dalu iddo eu cymwynas olaf. Dangosodd ei gyd-drefwyr a boneddigion blaenaf y gymydogaeth barch nid bychan i'r ymadawedig. Y blaenaf, drwy osod *shutters* eu masnachdai i fynu ar ddydd ei angladd, a'r olaf drwy ddilyn y corff i dŷ ei hir gartref yn mynwent Catwg, ger y dref. Yr oedd Mr. Edwards yn enedigol o ardal Llandilo, Sir Gaerfyrddin, lle yr oedd ei deulu yn bleidwyr selog dros y ffydd Undodaidd. Côf gan yr ysgrifenydd ei glywed ef yn adrodd am yr hen weinidogion ag ydynt yn awr wedi ein gadael, eu bod yn arferol o fod yn nhŷ ei dad fel pe buasent yn eu cartref eu hunain. Ac, yn wir, nid ydym yn meddwl llai nad oeddynt felly hefyd yn ei dŷ ef. Yr oedd ef a'i deulu bob amser yn hawddgar ac yn garedig dros ben. Arferai ein gweinidogion alw yn ei dŷ pan yn myned drwy y dref, os byddai amser yn caniatâu. Buasai yn teimlo yn anfoddlawn braidd os na wnaent hyny. Yr oedd Mr. Edwards yn cael ei gydnabod fel dyn cywir ac onest—*straightforward* yn ei holl faterion; nid oedd dim ag oedd ef yn gashau yn fwy na dichell a thwyll. Yr oedd ynau yn Undodwr selog, a chyda'r blaenaf yn dal yr achos yn mlaen yn Nghastellnedd tra y bu pregethu yno. Anaml y cyfarfyddid â dyn â mwy o wybodaeth gyffredinol, ac yn deall ansawdd pethau, yn well nag ef. Yr Arglwydd fyddo yn nerth i'r weddw i ddwyn i fynu y rhai sydd yn awr dan ei gofal hi yn unig yn y llwybr y rhodiodd yr ymadawedig ar ei daith yn y byd; ac yn neilldiol ei unig fab, o'r hwn yr oedd yn hoff iawn, ac yn awyddus yn ei fynydau olaf ar fod idde gael ei ddwyn i fynu yn ffordd cyfiawnder a gwir santeiddrwydd. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

*Gellionen.* J. Evans.

D. JENKINS, ARGRAFFYDD, HEOL Y WÎG, ABERYSTWYTH.